





# Arolwg Dilynol o Addysg Bellach **2005**

## ADRODDIAD

Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid – Adroddiad 5

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

# AROLWG DILYNOL O ADDYSG BELLACH 2005

© ELWa Ionawr 2006. Cynhyrchwyd gan NOP gyda ELWa ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC). Mae ELWa yn gorff cyhoeddus a noddwyd gan y Cynulliad. Fe'I sefydlwyd ym mis Ebrill 2001 o dan y Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae ELWa yn gyfrifol am gynllunio, cyllido, hyrwyddo ac ehangu mynediad I Addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. I Ebrill 2006 bydd ELWa yn rhan a LLCC. Caniateir atgynhyrchu rhannau o'r cyhoeddiad hwn am resymau hyfforddiant neu addysgiadol nad yw yn fasnachol, ar yr amod na chamliwir y ffeithiau a chydnabyddir y ffynhonnell.



**GfK NOP**

Grŵp ymchwil NOP yw cangen y DU o NOP World, y nawfed o'r asiantaethau ymchwil mwyaf yn y byd. Yn y DU cyflogir tua 600 o staff gan NOP sydd wedi'i rannu yn adrannau arbenigol.

Mae'r tîm sy'n gweithio ar Astudiaethau Achos Cyflogwyr yn rhan o'r adran sy'n arbenigo mewn Ymchwil Cymdeithasol a mae 30 o ymchwilwyr yn gweithio yn y maes hwn. Mae gan y tîm brofiad perthnasol o arolygon ymchwil cymdeithasol ar raddfa fawr ac o wneud ymchwil i fodlonrwydd cwsmeriaid.

## CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1.0 | Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 2.0 | Cyflwyniad a chefndir | 4 |
| 3.0 | Methodoleg | 5 |
| 4.0 | Cwblhau'r cwrs yr ymgymerwyd ag ef yn 2003 | 16 |
| 5.0 | Digwyddiadau dysgu ers cwrs 2003 | 31 |
| 6.0 | Digwyddiadau cyflogaeth ers cwrs 2003 | 50 |
| Atodiad 1 | | 59 |
| Atodiad 2 | | 60 |
| Atodiad 3 | | 69 |

# 1.0 CRYNODEB GWEITHREDOL





## 1.1 Cyflwyniad

Yn 2003, comisiynodd ELWa arolwg o fodlonrwydd dysgwyr ôl-16 â'u profiadau dysgu, a oedd yn edrych ar eu canfyddiadau o ddysgu a'r profiad o'u safbwynt nhw. Yn dilyn yr arolwg bodlonrwydd dysgwyr, comisiynodd ELWa NOP i gynnal arolwg dilynol gyda dysgwyr AB i ganfod beth a oedd wedi digwydd ers eu cyfweliad gwreiddiol yn 2003.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfweliad 15 munud dros y ffôn a chyflawnwyd 541 o gyfweliadau yn ystod mis Ebrill 2005. Nod cyffredinol yr arolwg hwn oedd olrhain dilyniant dysgwyr AB wedi iddynt adael eu digwyddiad dysgu, o ran eu gyrfaoedd a'u profiadau dysgu pellach. Bwriad arall yr arolwg oedd cael gwybodaeth am unrhyw newidiadau mewn agwedd neu symbyliad i ddysgu y gallai'r profiad dysgu yn 2003 fod wedi'u hachosi. O hyn ymlaen, gelwir arolwg bodlonrwydd dysgu 2003 yn arolwg 2003 a gelwir yr arolwg dilynol hydredol yn arolwg 2005.

### Bodlonrwydd cyffredinol â'r cwrs

Dim ond 72% o'r ymatebwyr a adroddodd eu bod yn hynod fodlon â'r cwrs yn 2003 a ddwedodd yr un peth yn 2005. O'r rheiny a oedd yn fodlon iawn yn 2003, aeth ychydig yn fwy o ymatebwyr yn llai positif nag a ddaeth yn fwy positif (symudodd 13% i lawr i eithaf bodlon a symudodd 9% i fyny i hynod fodlon). Ar nodyn mwy cadarnhaol, dywedodd 24% o'r rheiny a oedd yn eithaf bodlon yn 2003 eu bod yn fodlon iawn yn 2005.

Gofynnwyd i ymatebwyr pam roedd eu lefel bodlonrwydd wedi newid dros amser. Roedd yr ymatebion yn bennaf gysylltiedig â'r cwrs a'r athro, er enghraifft, dywedodd 12% fod y cwrs wedi bod o gymorth iddynt a'u bod wedi cyflawni'r hyn roeddent am ei gyflawni, a dywedodd 8% fod yr athro/y tiwtor yn dda. Dywedodd cyfran sylweddol o ymatebwyr (12%) nad oeddent yn gwybod pam roedd eu lefel bodlonrwydd wedi newid dros amser.

### Perthnasedd y cwrs i anghenion

Teimlai rhyw dri chwarter (73%) o'r ymatebwyr fod y cwrs wedi bod yn berthnasol i'w hanghenion. Roedd y rheiny a deimlai fod y cwrs yn berthnasol i'w hanghenion hefyd wedi mynegi lefelau bodlonrwydd uwch. O'r rheiny a oedd yn hynod fodlon, dywedodd 89% fod eu cwrs yn hollol berthnasol i'w hanghenion. O'r dysgwyr bodlon iawn, credai 80% fod eu cwrs yn hollol berthnasol i'w hanghenion.

### Disgwyliadau dysgwyr

Yn 2003, gofynnwyd i ddysgwyr beth oedd eu disgwyliadau o restr o awgrymiadau. Yn arolwg 2005 darllenwyd y rhestr disgwyliadau a gafodd eu crybwyll gan y dysgwyr yn 2003 i'r dysgwyr, a gofynnwyd iddynt a fodlonwyd y rhain. O'r deg o ddisgwyliadau a oedd gan ddysgwyr, cytunodd rhwng 77% a 51% fod pob disgwyliad wedi cael ei fodloni'n llawn. Disgwyliadau 'meddal' oedd y disgwyliadau a oedd fwyaf tebygol o gael eu bodloni. Roedd tua thri chwarter o'r rheiny yr oedd eu disgwyliadau wedi cael eu bodloni wedi adrodd bod y disgwyliadau canlynol ganddynt yn 2003:

- Cyfarfod â phobl newydd (dywedodd 77% y bodlonwyd hwn yn llawn)
- Gwella'ch gwybodaeth am y pwnc (dywedodd 75% y bodlonwyd hwn yn llawn)
- Gwneud rhywbeth defnyddiol yn eich amser hamdden (dywedodd 74% y bodlonwyd hwn yn llawn)
- Ennill sgiliau newydd (dywedodd 72% y bodlonwyd hwn yn llawn).

### Bodloni dyheadau

Gofynnwyd hefyd i'r rhai a gafodd eu cyfweld a oedd eu cwrs wedi helpu gydag ystod o ddyheadau. Dywedodd wyth allan o ddeg ymatebydd fod y cwrs wedi eu helpu nhw i godi'u hyder. Dywedodd tri chwarter (74%) ei fod wedi'u helpu nhw i wneud ffrindiau newydd, dywedodd 69% o ymatebwyr ei fod wedi'u helpu nhw i gadw i fyny â thechnoleg newydd a dywedodd 67% ei fod wedi'u helpu nhw i ennill cymwysterau.

## Y defnydd o sgiliau yn y gwaith

Gofynnwyd i ymatebwyr cyflogedig a oeddent wedi ennill unrhyw rai o'r sgiliau roeddent yn defnyddio yn eu swyddi cyfredol ar eu cwrs AB. Adroddodd pumdeg chwech y cant eu bod yn defnyddio sgiliau a gawsant o'r cwrs. Roedd y sgiliau a grybwyllwyd amlaf fel a ganlyn:


- Sgiliau cyfrifiadurol/gwybodaeth benodol am feddalwedd (29%)
- Sgiliau cyfathrebu/gwrando (16%)
- Sgiliau rhyngbersonol (10%)

## 1.2 Dychwelyd i ddysgu

Roedd tri deg chwech y cant o ddysgwyr wedi dychwelyd i ddysgu rhwng gorffen y cwrs a ddilynont yn 2003 a chael eu cyfweld yn 2005. Roedd y rheiny a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn â'u profiad dysgu yn 2003 yn debycach o lawer o fod wedi dychwelyd. Roedd tri deg wyth y cant o'r ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon, a 40% o'r rheiny a oedd yn fodlon iawn yn 2003 wedi dychwelyd i ddysgu. Mae'r gyfran yn gostwng mewn perthynas â'r rheiny a oedd ond yn eithaf bodlon ar eu profiad dysgu (dim ond 26% o'r grŵp hwn a ddychwelodd i ddysgu o fewn tair blynedd). Dim ond 11% o'r rheiny a ddywedodd eu bod yn teimlo'n ddifater neu'n anfodlon a ddychwelodd i ddysgu.

Roedd ymatebwyr a gwblhaodd y cwrs y buont yn ei ddilyn yn 2003 yn debycach o lawer o fod wedi dychwelyd i ddysgu ers gadael (39% o'u cymharu ag 20% o'r rheiny na chwblhaodd y cwrs).

### Siart 1: Rhesymau dros ymgymryd â dysgu dilynol (%)




Ffynhonnell: Arolwg 2005; Sylfaen: pob ymatebydd (541); caniatawyd ymatebion lluosog



## Rhesymau dros ddysgu

Roedd y mwyafrif o'r rhesymau dros ymgymryd â dysgu dilynol yn gysylltiedig â chyflogaeth. Fodd bynnag, nid dyna oedd y prif ateb. Dywedodd dros draean o ddysgwyr mai eu rheswm dros ddysgu oedd bod ganddynt ddiddordeb yn y pwnc (35%). Dywedodd 28% pellach mai dysgu sgiliau ar gyfer eu swydd gyfredol oedd y rheswm a dywedodd 21% mai dysgu sgiliau ar gyfer swydd yn y dyfodol oedd y rheswm. Mae siart un isod yn dangos yr holl ymatebion a roddwyd.

## Symbyliad a dysgu

Nododd yr ymatebion i arolwg 2003 bwysigrwydd bodlonrwydd ag athrawon/tiwtoriaid o ran gyrru bodlonrwydd cyffredinol, ac mae arolwg 2005 eto'n amlygu pwysigrwydd ansawdd yr addysgu. Darllenwyd rhestr o ffactorau symbylol i ymatebwyr a gofynnwyd iddynt raddio pa mor bwysig oedd pob ffactor iddyn nhw. Cafodd y ffactorau canlynol eu graddio fel rhai pwysig iawn gan o leiaf 40% o ymatebwyr:

- Cefnogaeth gan athro neu hyfforddwr (50%)
- Yr angen i wella'u hunain (47%)
- Ennill cymhwyster (42%)
- Datblygiad personol (41%).

## Y tebygolrwydd o ddychwelyd i ddysgu

Roedd y rheiny a ddywedodd eu bod naill ai'n hynod fodlon neu'n fodlon iawn yn arolygon 2003 a 2005 yn debycach o ddweud y byddent yn dychwelyd i ddysgu yn y dyfodol (yn 2005, roedd 75% o'r rheiny a oedd yn hynod fodlon yn debygol iawn neu'n eithaf tebygol o ddychwelyd, ynghyd â 74% o'r rheiny a oedd yn fodlon iawn), yn yr un modd ag yr oedd y rheiny yr oedd teimladau cadarnhaol ganddynt pan adawont yr ysgol (roedd 75% â theimladau cadarnhaol yn debygol iawn neu'n eithaf tebygol).

Yn 2003, dywedodd 90% o'r rheiny a gymerodd ran yn arolwg 2005 eu bod yn debygol iawn neu'n eithaf tebygol o ddychwelyd i ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'n bosibl mai testun pryder felly yw mai dim ond 75% oedd wedi dweud yn 2005 eu bod yn debygol iawn neu'n eithaf tebygol
o ddychwelyd i ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf.

Roedd cyfran uwch o ddysgwyr a gwblhaodd eu cwrs yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn â'u cyflogaeth bresennol (60% o gymharu â 46%). Mae'n ymddangos bod bodlonrwydd â dysgu, yn 2005 ac yn 2003, yn cyd-fynd â bodlonrwydd yr ymatebwyr â chyflogaeth bresennol:

- Roedd 69% (64% yn 2003) o ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon â'u dysgu'n gyffredinol yn hynod fodlon/iawn â'u cyflogaeth bresennol
- Roedd 60% (58% yn 2003) o ymatebwyr a oedd yn fodlon iawn â'u dysgu'n gyffredinol yn hynod fodlon/iawn â'u cyflogaeth bresennol
- Roedd 43% (51% yn 2003) o ymatebwyr a oedd yn eithaf bodlon â'u dysgu'n gyffredinol yn hynod fodlon/iawn â'u cyflogaeth bresennol.

# 2.0 CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae gan Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) gyfrifoldeb am gynllunio, ariannu a hyrwyddo darpariaeth dysgu ôl-16 yng Nghymru, ac eithrio Addysg Uwch. Mae hyn yn cynnwys Addysg Bellach (AB), Addysg Barhaus i Oedolion (ABO), Dosbarthiadau Chwech mewn Ysgolion a Rhaglenni Dysgu yn y Gwaith (DG).

Rhan bwysig o gyflawni ei gyfrifoldeb i ddysgwyr yw y dylai ELWa ddeall anghenion a phrofiadau dysgwyr, a dylai ddefnyddio'r wybodaeth hon i wella ystod ac ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael yn gyson.

Gyda hyn mewn golwg, yn 2003, comisiynodd ELWa arolwg o fodlonrwydd ymysg dysgwyr ôl-16 am eu profiadau dysgu. Edrychodd yr arolwg ar ganfyddiadau dysgwyr a'r profiad dysgu o'u safbwynt nhw. Defnyddiwyd y wybodaeth a ddarparwyd i helpu ELWa a rhanddeiliaid eraill i wella ansawdd addysg a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion dros 16 oed.

Ym mis Ionawr 2005 comisiynodd ELWa NOP i gynnal arolwg dilynol (arolwg 2005) gyda dysgwyr AB i adeiladu ar ganfyddiadau'r arolwg holl gynhwysfawr gwreiddiol. Mae cynlluniau hefyd ar gyfer arolwg hydredol o ddysgwyr yn y gwaith y bwriedir iddo gydategu'r arolwg hwn.

Nod cyffredinol yr arolwg hwn oedd olrhain dilyniant dysgwyr AB ar ôl eu digwyddiad dysgu, o ran eu gyrfaoedd a'u profiadau dysgu pellach. Nod yr arolwg hefyd oedd cael gwybodaeth am unrhyw newidiadau mewn agwedd neu symbyliad i ddysgu y gallai profiad dysgu 2003 fod wedi'u hachosi.

## Yr amcanion mwy penodol oedd darparu:

Data cyrchfannau: Dadansoddi natur y cyrchfannau fel cyflogaeth, dysgu neu hyfforddiant pellach a'r effaith a gafodd digwyddiad dysgu 2003 ar hwn.

Data effaith: Asesu pa effaith y mae'r digwyddiad dysgu wedi'i chael ar amgylchiadau economaidd gymdeithasol ac i archwilio effaith gronnol dysgu ar les yr unigolyn.

Mae copi o'r holiadur wedi'i gynnwys fel Atodiad 2.

# 3.0 METHODOLEG





## 3.1 Samplo

Dychwelodd arolwg 2005 i ymatebwyr o Arolwg Cenedlaethol Bodlonrwydd Dysgwyr (ABD) a ddigwyddodd yn haf 2003. Mantais defnyddio'r ffrâm sampl hon oedd y gallem gysylltu data dilyniant a chyrchfan â data bodlonrwydd a data arall sy'n gysylltiedig â phrofiadau unigolion o'r cwrs/rhaglen.

Daeth y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg 2005 o blith dysgwyr AB a ddywedodd y byddent yn gorffen eu cwrs yn y 12 mis ar ôl y cyfweliad 2003 ac roeddent wedi cytuno y gellid ailgysylltu â nhw. Roedd 1,471 o ymatebwyr a oedd yn gymwys o arolwg 2003 ac a oedd wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni'r 500 o gyfweliadau gofynnol, roedd angen cysylltu â'r holl bobl hyn. Roedd hyn yn golygu na ellid gwneud i'r sampl fod yn gynrychiolaidd gan ffactorau fel demograffeg bersonol a bodlonrwydd sampl cyffredinol yr ABD yn 2003. Rydym yn dangos yn ddiweddarach, fodd bynnag, er bod y proffil demograffeg yn amrywio ychydig o ran oedran a rhyw, yr un yw'r cyfraddau bodlonrwydd cyffredinol â'r cwrs yn 2003. Mae hyn yn golygu'n bod ni'n hyderus nad oedd y garfan a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg 2005 yn tueddu at fod yn fwy cadarnhaol neu negyddol am y cwrs na'r sampl cyffredinol o ddysgwyr a gafodd eu cyfweld yn 2003. Mae rhai achosion lle ceir tuedd o ran oedran rhwng arolygon 2003 a 2005 oherwydd gwahaniaethau oedran y dysgwyr y bu modd ailgysylltu â nhw. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cael eu trafod yn adran 3.

Cyn cychwyn ar y gwaith maes, anfonwyd llythyr gan NOP at bob person yn y sampl y gellid ailgysylltu â nhw. Roedd y llythyr yn cyflwyno arolwg 2005 ac esboniodd y byddai NOP yn rhoi galwad cyn hir. Roedd y rhif ffôn cyswllt a ddefnyddiwyd yn ystod arolwg 2003 hefyd wedi cael ei ddarparu yn y llythyr, a gofynnwyd i ddarpar ymatebwyr gysylltu â NOP os oedd y rhif ffôn a oedd yn cael ei gadw yn y cofnodion wedi newid. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei gynnwys fel Atodiad 1.

## 3.2 Cynllun yr Holiadur

Roedd yr holiadur yn parhau am 15 munud ar gyfartaledd. Ar wahân i'r angen i'r ymatebydd feddwl am newidiadau mewn cyflogaeth a hefyd i restru'r holl ddigwyddiadau dysgu ers 2003, roedd yr holiadur hefyd yn ceisio archwilio sut mae'r digwyddiad dysgu wedi bod o fudd i'r unigolyn o ran enillion mwy meddal e.e. yn gysylltiedig â hunanddelwedd a hyder cymdeithasol. Roedd arno angen casglu gwybodaeth am ba mor fodlon oedd yr ymatebydd ar ddiwedd y digwyddiadau dysgu yn 2003 hefyd (byddai'r data bodlonrwydd a gasglwyd yn 2003 wedi adlewyrchu sut roedd yr ymatebydd yn teimlo cyn diwedd eu cwrs a theimlwyd y byddai'n ddiddorol sefydlu a oedd y farn hon wedi newid wrth edrych yn ôl).

Ystyriaeth arall o ran cynllun y cwestiynau oedd creu modiwlau o gwestiynau ar gyfer pob digwyddiad dysgu a/neu newid mewn statws cyflogaeth. Cafwyd dolen o gwestiynau ynghylch cyflogaeth eu cynllunio, yn holi am gyflogaeth bresennol yr ymatebydd ac yna am bob swydd flaenorol roeddent wedi'i dal ers cwblhau eu cwrs. Ar ôl profi gofalus yn ystod y cyfnod peilot penderfynwyd bod adalw ymatebwyr ar ei fwyaf effeithiol o drefnu'r cwestiynau felly. Gofynnwyd cwestiynau tebyg ynghylch dysgu yr ymgymerwyd ag ef ers cwrs 2003.

O ran cyflogaeth, gofynnodd arolwg 2005 gyfres o gwestiynau mewn perthynas â:

- Bodlonrwydd â chyflogaeth bresennol
- Datganiadau am agwedd at eu swydd bresennol
- Datganiadau ynglŷn â'r effaith a gafodd y cwrs ar eu rhagolygon o ran swydd neu waith
- Y sgiliau a enillwyd ar y cwrs
- Pam ddaeth y swydd flaenorol i ben (os oeddent wedi bod mewn mwy nag un swydd).

O ran y digwyddiadau dysgu yr ymgymerwyd â nhw ers arolwg 2003, gofynnodd arolwg 2005:

- Y math o ddysgu a manylion e.e. math o gymhwyster, lefel a phwnc
- Rhesymau pam maent ar y cwrs
- Symbyliadau dros ddysgu
- Y tebygolrwydd o gwblhau'r cwrs.

## Tabl 3.1: Proffil o'r sampl a'r sampl a gyflawnwyd

| | Arolwg 2005 (%) | Sampl ar gyfer arolwg (%) | Arolwg 2003 (%) |
|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | |
| Gwryw | 35 | 35 | 43 |
| Benyw | 65 | 65 | 57 |
| **Oedran** | | | |
| 16 – 18 | 17 | 16 | 25 |
| 19 – 24 | 8 | 10 | 14 |
| 25 – 34 | 11 | 15 | 17 |
| 35 – 44 | 23 | 21 | 19 |
| 45 – 54 | 16 | 16 | 14 |
| 55+ | 27 | 22 | 12 |
| **Anabledd** | | | |
| Oes | 9 | 9 | 9 |
| Nac oes | 91 | 91 | 91 |
| **Anhawster Dysgu** | | | |
| Oes | 6 | 6 | 7 |
| Nac oes | 94 | 94 | 93 |
| **Ethnigrwydd** | | | |
| Gwyn – Prydeinig | 90 | 89 | 89 |
| Gwyn – unrhyw gefndir arall | 8 | 8 | 8 |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 1 | 2 | 1 |
| Cymraeg | 7 | 6 | 5 |

| | 2005 survey (%) | Sample for 2005 survey (%) | 2003 survey (%) |
|---|---|---|---|
| **Grŵp economaidd gymdeithasol** | | | |
| A | 1 | 1 | 1 |
| B | 12 | 12 | 13 |
| C1 | 40 | 38 | 38 |
| C2 | 28 | 28 | 28 |
| D | 9 | 9 | 9 |
| E | 9 | 11 | 10 |
| **Bodlonrwydd cyffredinol** | | | |
| Hynod fodlon | 29 | 30 | 27 |
| Bodlon iawn | 45 | 43 | 43 |
| Eithaf bodlon | 18 | 20 | 22 |
| Heb fod yn fodlon na'n anfodlon | 2 | 2 | 2 |
| Eithaf anfodlon | 3 | 3 | 3 |
| Anfodlon iawn | 1 | 1 | 1 |
| Hynod anfodlon | 1 | 1 | 1 |

### 3.3 Yr arolwg

Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfweliad 15 munud dros y ffôn yn defnyddio CATI (cyfweld dros y ffôn gyda chymorth cyfrifiadur) a chyflawnwyd 541 o gyfweliadau yn ystod Ebrill 2005. Mae'r cyfraddau ymateb yn cael eu cynnwys fel Atodiad 3.



## 3.4 Proffil o'r ymatebwyr yn arolwg 2005

Mae proffil ymatebwyr arolwg 2005 yn wahanol i broffil arolwg 2003 oherwydd y meini prawf roedd angen iddynt eu bodloni er mwyn cael eu cynnwys (eu bod wedi cynllunio i orffen y cwrs mewn blwyddyn wedi cyfnod yr arolwg bodlonrwydd a'u bod wedi cytuno i gael eu cyfweld eto yn ddiweddarach). Mae tabl 3.1 yn dangos proffil y dysgwyr yn arolwg 2003, proffil y rheiny a ddywedodd y gellid ailgysylltu â nhw a phroffil y 541 o ymatebwyr arolwg 2005.

## 3.5 Gosod y cyd-destun: data o arolwg 2003 ar gyfer yr ymatebwyr yn arolwg 2005

Diben yr adran hon yw rhoi trosolwg o'r ymatebion a roddwyd yn arolwg 2003 yn benodol ar gyfer y 541 o ymatebwyr a gymerodd ran yn arolwg 2005. Gwybodaeth gyd-destunol ydyw am yr hyn roeddent yn ei wneud adeg yr Arolwg Bodlonrwydd Dysgwyr a pha mor fodlon oeddent.

### 3.5.1 Bodlonrwydd cyffredinol â'r profiad dysgu

Yn 2003, roedd lefelau bodlonrwydd yn gyfryw bod chwarter (29%) o'r ymatebwyr yn hynod fodlon, a 45% yn fodlon iawn â'u profiad dysgu cyffredinol. Yn gyffredinol, mynegodd 92% raddfa o fodlonrwydd a dim ond 6% a fynegodd anfodlonrwydd â'u profiad dysgu.

### 3.5.2 Amcanion dysgwyr cyn eu cwrs

Yn gyffredinol, yr amcan mwyaf poblogaidd cyn y cwrs a enwyd yn ystod arolwg 2003 oedd 'gwella'ch gwybodaeth am y pwnc' (96%). Bu gwahaniaethau sylweddol ar draws y grwpiau oedran ynglŷn â'u hamcanion cyn y cwrs, fel y mae Tabl 3.3 yn dangos. Yn gyffredinol, roedd amcanion yn gysylltiedig â gyrfa fel 'cael swydd wahanol/swydd well' a'r 'gallu i gael dilyniant cyffredinol drwy eich gyrfa' yn gynyddol llai pwysig wrth i oedran yr ymatebydd fynd yn hŷn. Roedd yn agos at naw o bob deg person rhwng 16 a 18 oed wedi ymgymryd â'r cwrs i 'gael swydd wahanol/swydd well' lle'r oedd nifer sylweddol lai o unigolion rhwng 25 a 34 oed (61%) a rhwng 35 a 54 oed (52%) yn dweud bod hwn yn amcan. Dylid gwahaniaethu rhwng amcanion o ran dilyniant gyrfa a'r rheiny a oedd yn gysylltiedig â'u swydd bresennol, a oedd yn fwy poblogaidd ymhlith y rheiny rhwng 25 a 34 a rhwng 35 a 54 oed. Nododd nifer sylweddol fwy o unigolion rhwng 25 a 34 (46%) a rhwng 35 a 54 (57%) oed fod 'dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddech yn ei gwneud ar y pryd' yn amcan nag unigolion rhwng 16 a 18 oed (46%). Mae hyn yn awgrymu bod dysgwyr iau yn edrych ar eu cwrs AB fel cyfle i wneud cynnydd drwy eu swyddi ond bod dysgwyr hŷn yn ei ddefnyddio fel cyfle i'w helpu nhw yn eu swyddi presennol, efallai oherwydd eu bod eisoes wedi ymsefydlu yn eu swydd bresennol.

### Tabl 3.2: Bodlonrwydd cyffredinol â'r profiad dysgu

| Sylfaen: Pob ymatebydd | |
|---|---|
| Cyfanswm | 541 |
| | % |
| Hynod fodlon | 29 |
| Bodlon iawn | 45 |
| Eithaf bodlon | 18 |
| Heb fod yn fodlon na'n anfodlon | 2 |
| Eithaf anfodlon | 3 |
| Anfodlon iawn | 1 |
| Hynod anfodlon | 1 |

Ffynhonnell: Arolwg 2003; ni chynhwyswyd y rhai a wrthodwyd

## Tabl 3.3: Amcanion dysgwyr wrth ymgymryd â'u cwrs

| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | 16 – 18 | 19 – 24 | 25 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 541 | 91 | *42 | 57 | 206 | 145 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Cael swydd wahanol/swydd well | 49 | 87 | 64 | 61 | 52 | 12 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddech yn ei gwneud ar y pryd | 46 | 46 | 33 | 60 | 57 | 29 |
| Y gallu i wneud cynnydd drwy eich gyrfa'n gyffredinol | 66 | 92 | 86 | 81 | 70 | 31 |
| Cael mwy o fodlonrwydd o'ch gwaith | 69 | 86 | 71 | 72 | 71 | 52 |
| Mynd ar gyrsiau eraill neu wneud cynnydd yn eich addysg | 76 | 96 | 83 | 86 | 77 | 56 |
| Gwella'ch gwybodaeth am y pwnc | 96 | 99 | 95 | 93 | 99 | 92 |
| Ennill sgiliau newydd | 94 | 99 | 95 | 89 | 95 | 92 |
| Gwella'ch datblygiad personol | 93 | 98 | 90 | 89 | 95 | 90 |
| Cyfarfod â phobl newydd | 83 | 95 | 79 | 82 | 82 | 79 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol â'ch amser hamdden | 79 | 85 | 81 | 67 | 77 | 85 |

Ffynhonnell: Arolwg 2003; nid yw'r ymatebion 'ddim yn gwybod' ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; caniatawyd ymatebion lluosog; Nid yw ymatebion o 2% neu lai wedi cael eu cynnwys; *Mae maint y sylfaen o dan 50

### 3.5.3 A oedd y cwrs wedi helpu amcanion dysgwyr

Gofynnwyd i ddysgwyr i ba raddau roedd eu cwrs wedi'u helpu nhw i fodloni eu hamcanion cyn hyfforddi (a grybwyllwyd uchod). Yr amcan roedd y mwyafrif yn teimlo bod eu hyfforddiant wedi'i helpu cryn dipyn oedd 'gwella'u gwybodaeth am y pwnc' (81%) fel y mae Siart 3.1 yn ei ddangos. Teimlai ymatebwyr mai eu hamcan o 'gael swydd wahanol/swydd well' oedd wedi elwa lleiaf drwy fynychu'r cwrs. Dyma'r amcan a gafodd y gyfran leiaf o ymatebwyr yn dweud ei fod wedi 'helpu llawer' (42%) a'r gyfran fwyaf o'r rheiny a ddywedodd 'nad oedd wedi helpu o gwbl; (15%).

### 3.5.4 Cael y dewis cyntaf o ran darparwr/cwrs


Cafodd dros dri chwarter (79%) o ymatebwyr eu dewis cyntaf o ran darparwr. Dim ond 4% o ddysgwyr a fethodd â chael eu dewis cyntaf o ran darparwr ac ni chafodd 12% o ddysgwyr unrhyw ddewis o ran eu darparwr.

Roedd bron pob ymatebydd ar eu dewis cyntaf o ran cwrs (88%). Dim ond 5% o ddysgwyr oedd ar gwrs nad oedd yn ddewis cyntaf ganddynt.





## Siart 3.1: Y graddau yr oedd y cwrs wedi helpu i fodloni amcanion (%)




Ffynhonnell: Arolwg 2003; Sylfaen: Pob ymatebydd (541); Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys

### 3.5.5 Y rhesymau dros ddewis y darparwr


Y rheswm mwyaf poblogaidd dros ddewis darparwr, a nodwyd gan bron dau o bob tri dysgwr yn 2003 (65%), oedd 'hwylustod y lleoliad'. Roedd y rheswm hwn, o bell ffordd, yn rheoli dewis dysgwyr o ddarparwr fel y gellir gweld yn siart 3.2, gyda'r ail reswm mwyaf poblogaidd - 'cynnig yr hyfforddiant roeddwn ei eisiau' a nodwyd gan ychydig dros chwarter o'r dysgwyr (26%).

### 3.5.6 Ffynonellau cyngor am ddysgu

Y ffynhonnell cyngor fwyaf cyffredin oedd 'tiwtoriaid yn y coleg/y darparwr', ymysg dynion (38%) a menywod (39%) ill dau. Fodd bynnag, roedd dynion yn debycach o ddefnyddio ffynonellau lluosog cyngor o gymharu â'u cyfoedion benywaidd. Mae'r gwahaniaethau sylweddol o ran cael cyngor am ddysgu rhwng y rhywiau wedi'u hamlygu isod:

- Rhieni neu deulu (27% o ddynion yn erbyn 17% o fenywod)
- Ymgynghorwyr gyrfaoedd ysgolion (21% o ddynion yn erbyn 10% o fenywod)
- Swyddfa dderbyn coleg (37% o ddynion yn erbyn 28% o fenywod).

## Siart 3.2: Y rhesymau dros ddewis darparwr (%)




Ffynhonnell: Arolwg 2003; Sylfaen: Pob ymatebydd (541); Nid yw'r ymatebion Ddim yn Gwybod ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; Caniatawyd ymatebion lluosog

### 3.5.7 A gafodd y disgwyliadau cyn y cwrs eu bodloni

Yn ystod arolwg 2003, gofynnwyd i ymatebwyr feddwl am eu disgwyliadau o'r cwrs ac i ddweud a oedd y cwrs wedi bodloni'r gofynion hyn. Ar y cyfan, teimlai'r dysgwyr fod yr holl fathau o ddisgwyliadau cyn y cwrs wedi cael eu bodloni. Roedd y mwyafrif o ddysgwyr yn teimlo bod disgwyliadau ynghylch 'safon y gwaith a ddisgwylid' (95%) a 'faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd' (94%) wedi cael eu bodloni, fel mae Tabl 3.5 yn dangos. Y disgwyliadau ynghylch 'yr arddulliau a'r dulliau addysgu a ddefnyddiwyd yn y sesiynau' oedd y rhai a gafodd eu bodloni lleiaf aml, gyda hwn yn gymwys i un o bob 10 dysgwr yn unig.





## Tabl 3.4: Ffynonellau cyngor am ddysgu

| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 |
| | % | % | % |
| Gyrfa Cymru | 14 | 18 | 12 |
| Swyddfa dderbyn coleg | 31 | 37 | 28 |
| Athrawon yn yr ysgol | 15 | 18 | 13 |
| Tiwtoriaid yn y coleg/ y darparwr | 39 | 38 | 39 |
| Rhieni neu deulu | 20 | 27 | 17 |
| Ffrindiau | 34 | 35 | 33 |
| Cyflogwr | 18 | 15 | 20 |
| Ymgynghorydd Gyrfaoedd yn yr Ysgol | 14 | 21 | 10 |
| Gwasanaeth cyswlltdysgu | 8 | 8 | 7 |
| Gwefan cyswlltdysgu | 4 | 5 | 3 |
| Papur newydd | 4 | 4 | 5 |

Ffynhonnell: Arolwg 2003; nid yw'r ymatebion 'ddim yn gwybod' ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; caniatawyd ymatebion lluosog; nid yw ymatebion o 3% neu lai wedi cael eu cynnwys

### 3.5.8 Bodlonrwydd â'r addysgu/ hyfforddiant

Cafwyd lefel uchel o fodlonrwydd â'r dysgu yn arolwg bodlonrwydd 2003. Roedd ychydig dros draean (34%) o ddysgwyr yn hynod fodlon â'u hyfforddiant ac roedd 36% yn fodlon iawn. Roedd yn agos at 9 o bob 10 o ymatebwyr (89%) wedi rhoi graddfa o fodlonrwydd â'u haddysgu/hyfforddiant. Dim ond 7% yn gyfan gwbl a roddodd raddfa o anfodlonrwydd.

Rhoddwyd amrywiol ddangosyddion i ymatebwyr yn arolwg 2003 a gofynnwyd iddynt raddio'u hathrawon/tiwtoriaid yn erbyn y dangosyddion hyn. Gofynnwyd iddynt roi sgôr iddyn nhw ar raddfa o 1 i 10 lle'r oedd 10 yn rhagorol. Yr agwedd ar ddysgu a gafodd y sgôr uchaf oedd 'y gallu i esbonio'r pwnc' (rhoddodd 57% raddfa o 9 neu 10 allan o 10 i'w hathrawon neu eu tiwtoriaid). Roedd sgorau'n uchel ar draws pob dangosydd.

### 3.5.9 Rheolaeth ar y dysgu

Rhoddwyd amrywiol ddangosyddion i ymatebwyr yn arolwg 2003 a oedd yn gysylltiedig â rheolaeth o'u dysgu a gofynnwyd iddynt roi sgôr i'w darparwr ar raddfa o 1 i 10 lle'r oedd 10 yn rhagorol ar gyfer pob un. Rhoddodd yr ymatebwyr y raddfa uchaf i 'Helpu pobl i ymsefydlu' (rhoddodd 52% raddfa iddynt o 9 neu 10 allan o 10). Unwaith eto sgoriodd y dangosyddion eraill yn uchel.

### 3.5.10 Cyfleusterau

O'r ymatebwyr hynny a raddiodd y cyfleusterau ar y safle, y 'cyfleusterau/offer TG' a gafodd raddfa o 9 neu 10 allan o 10 amlaf (59%). Roedd 34% o ymatebwyr wedi rhoi graddfa o 9 neu 10 allan o 10 am 'cyfleusterau a ddarparwyd ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill', y gyfran isaf.

## Tabl 3.5: A gafodd y disgwyliadau cyn y cwrs eu bodloni

| | | I ba raddau y bodlonwyd y disgwyliad | | |
|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob un o'r rheiny â disgwyliadau cyn y cwrs | Sylfaen | Wedi'i fodloni | Heb ei fodloni | Ddim yn gwybod |
| | | % | % | % |
| Faint o waith byddai'n rhaid i chi ei wneud | 469 | 92 | 7 | 1 |
| Strwythur y cwrs | 481 | 90 | 9 | 1 |
| Faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid i chi ei gymryd | 414 | 94 | 2 | 4 |
| Nifer y terfynau amser i'w bodloni | 423 | 90 | 6 | 5 |
| Cynnwys y cwrs | 502 | 92 | 7 | 1 |
| Arddulliau a dulliau addysgu a ddefnyddir yn y sesiynau | 491 | 89 | 10 | 1 |
| Safon y gwaith a ddisgwylir | 490 | 95 | 5 | 0 |
| Y mathau o bobl sy'n dilyn yr hyfforddiant | 410 | 93 | 4 | 3 |

Ffynhonnell: arolwg 2003; Y tabl yn dangos canrannau yn ôl rhes

### 3.5.11 Y galw am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Dim ond cyfran fechan o ddysgwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl (6%) ac nid oedd dros hanner yn gallu siarad Cymraeg o gwbl (55%). Nid oedd cyfran uwch byth yn gallu ysgrifennu unrhyw Gymraeg (65%),

Dim ond cyfran fechan o ddysgwyr oedd eisiau ychydig neu eu holl ddysgu yn y Gymraeg (5%). Dywedodd dros dri chwarter o ddysgwyr (78%) fod yn well ganddynt beidio â chael dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n bosibl nad yw hyn yn syndod oherwydd roedd tua chwarter y dysgwyr ond yn ystyried mai gallu sylfaenol yn unig oedd ganddynt wrth siarad Cymraeg (28%) ac wrth ysgrifennu Cymraeg (24%).





### Tabl 3.6: Graddio cyfleusterau yn y coleg/y darparwr (pob graddfa yn 9/10 allan o ddeg 10)

| Sylfaen: graddfeydd pob dysgwr | |
|---|---|
| Cyfanswm | 541 |
| | % |
| Cyfleusterau/offer TG | 39 |
| Llyfrgell neu ganolfan ddysgu | 30 |
| Cyfleusterau/offer arbenigol eraill sy'n gysylltiedig â'ch cwrs | 25 |
| Ffreutur/caffi | 22 |
| Cyfleusterau ar gyfer pobl ag anableddau/anawsterau dysgu | 21 |
| Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill | 17 |
| Gwasanaethau cefnogi dysgu | 15 |
| Cyngor gyrfaoedd | 13 |
| Cyfleusterau/offer chwaraeon | 11 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 10 |
| Cyfleusterau gofal plant | 6 |

DS: Seilir y canrannau a ddangosir ar y rheiny sy'n graddio pob ffactor. Mae hyn yn golygu mewn ambell achos y bydd meintiau'r sylfaen ychydig yn is na'r rheiny a roddir yn y tabl.

### 3.5.12 Problemau a gafwyd

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (52%) heb gael unrhyw broblemau o gwbl yn ystod eu cyrsiau AB. Y broblem fwyaf cyffredin a gododd ymysg dysgwyr oedd 'ffitio'r cwrs i mewn gydag ymrwymiadau gartref' (18%). Cafodd dysgwyr â chyfrifoldeb dros blant a/neu oedolion gartref fwy o broblemau na'r rheiny heb unrhyw gyfrifoldebau o gwbl fel y mae tabl 3.8 yn dangos. Roedd yr agweddau lle'r oedd y dysgwyr hyn â nifer sylweddol fwy o broblemau na'r dysgwyr hynny heb unrhyw gyfrifoldeb yn cynnwys:

- Cynnal safon y gwaith roedd ei angen (20% gyda phlant a/neu oedolion yn erbyn 13% heb unrhyw gyfrifoldebau)
- Ffitio'r cwrs i mewn ag ymrwymiadau gartref (24% gyda phlant a/neu oedolion yn erbyn 13% heb unrhyw gyfrifoldebau)
- Ffitio'r cwrs i mewn ag ymrwymiadau yn y gwaith (19% gyda phlant a/neu oedolion yn erbyn 12% heb unrhyw gyfrifoldebau).

## Tabl 3.7: Y problemau a gafwyd

| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Plant a/neu oedolion gartref | Neb o gwbl gartref |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 541 | 214 | 327 |
| | % | % | % |
| Cynnal safon y gwaith sydd ei angen | 16 | 20 | 13 |
| Cynnal eich symbyliad eich hun | 14 | 18 | 12 |
| Ffitio'r cwrs i mewn ag ymrwymiadau gartref | 18 | 24 | 13 |
| Ffitio'r cwrs i mewn ag ymrwymiadau yn y gwaith | 15 | 19 | 12 |
| Delio â phwysau ariannol | 7 | 8 | 6 |
| Teithio i'r coleg/i'r darparwr | 7 | 7 | 7 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod staff | 5 | 5 | 5 |
| Help ychwanegol a gafodd ei addo i chi heb gael ei ddarparu | 5 | 7 | 5 |
| Sgiliau mathemateg neu rifedd | 6 | 5 | 7 |
| Problemau o unrhyw fath gyda dysgwyr eraill | 3 | 4 | 3 |
| Sgiliau darllen/ysgrifennu | 3 | 5 | 2 |
| Dim problemau | 52 | 48 | 55 |

Ffynhonnell: arolwg 2003; nid yw'r ymatebion 'ddim yn gwybod' ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; nid yw ymatebion o 1% neu lai wedi cael eu cynnwys; caniatawyd ymatebion lluosog;





### 3.5.13 Bwriadau ar gyfer y dyfodol yn 2003

Dywedodd ychydig o dan draean o ddysgwyr (64%) eu bod yn debygol iawn o ymgymryd â dysgu o fewn y tair blynedd nesaf. Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng dynion a menywod ynghylch eu bwriadau yn y dyfodol o ran dysgu. Dywedodd dynion eu bod yn llai tebygol o ymgymryd â dysgu o fewn y tair blynedd nesaf (dywedodd 83% eu bod naill ai'n debygol iawn neu'n eithaf tebygol o ymgymryd â dysgu o fewn y tair blynedd nesaf, o'u cyferbynnu â 94% o fenywod). Dywedodd llawer mwy o ddynion (15%) na menywod (5%) nad oeddent yn debygol iawn neu'n debygol o gwbl o ymgymryd â mwy o ddysgu o fewn y tair blynedd nesaf.

### Tabl 3.8: Y tebygolrwydd o ymgymryd â dysgu pellach o fewn y 3 blynedd nesaf

| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 |
| | % | % | % |
| Tebygol iawn | 64 | 53 | 70 |
| Eithaf tebygol | 27 | 30 | 25 |
| Ddim yn debygol iawn | 6 | 11 | 3 |
| Ddim yn debygol o gwbl | 3 | 4 | 2 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3 | 1 |
| Tebygol iawn/eithaf tebygol | 90 | 83 | 94 |
| Ddim yn debygol iawn/yn debygol o gwbl | 9 | 15 | 5 |

Ffynhonnell: arolwg 2003; nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys

## 3.6 Crynodeb

Mae'r paragraffau cyd-destunol uchod wedi amlygu'r agweddau canlynol o Arolwg 2003 ar gyfer yr ymatebwyr yn arolwg 2005:

- Cafwyd lefel uchel o fodlonrwydd â'r profiad dysgu adeg yr 2006 arolwg bodlonrwydd (roedd hyn hyd at flwyddyn cyn iddynt orffen y cwrs)
- Cafwyd lefel uchel o fodlonrwydd â safon yr addysgu hefyd
- Roedd cryn dipyn o ymatebwyr wedi cael problemau pan oeddent ar y cwrs (48%)
- Roedd mwyafrif helaeth wedi cael eu dewis cyntaf o ran darparwr a chwrs
- Cafwyd nifer fawr o amcanion dros ymgymryd â'r cwrs ymysg yr ymatebwyr yn ôl yn 2003.

# 4.0 CWBLHAU'R CWRS YR YMGYMERWYD AG EF YN 2003


## 4.1 Cyflwyniad

Yn arolwg 2005, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i bob ymatebydd ynghylch a oeddent wedi cwblhau'r cwrs roeddent yn ymgymryd ag ef yn 2003, ac a oeddent wedi ennill eu cymhwyster ai peidio. Gofynnwyd hefyd iddynt feddwl yn ôl i'r amcanion fu ganddynt dros ymgymryd â'r cwrs yn wreiddiol ac a oeddent yn meddwl bod yr amcanion hynny wedi cael eu bodloni. Gofynnwyd iddynt am yr effeithiau roedd y cwrs yr ymgymerwyd ag ef yn 2003 wedi cael ar eu bywydau hefyd. Gofynnwyd hefyd i'r rheiny a oedd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd a oedd unrhyw rai o'r sgiliau a ddefnyddient ar gyfer eu swyddi wedi'u hennill o'r cwrs, a beth oedd y sgiliau hynny.

## 4.2 Cyffredinolrwydd gadael yn gynnar a'r rhesymau dros adael yn gynnar

Yn gyfan gwbl, cwblhaodd 83% o ymatebwyr y cwrs roeddent yn ymgymryd ag ef yn 2003. O'r rheiny na wnaeth, dywedodd 23% eu bod yn astudio'r un cwrs o hyd mewn gwirionedd. Mae siart 4.1 yn dangos mai'r ddau reswm mwyaf poblogaidd a gafwyd eu henwi ymysg y rheiny nad oeddent yn astudio o hyd oedd "nad oeddent yn hapus â'r cwrs" (13%) ac "y cwrs anghywir i mi" (11%). Gellid dadlau bod y rhesymau eraill dros adael yn gynnar yn ffactorau nad oes gan y darparwr lawer o reolaeth drostynt; fel cael swydd (9%), neu resymau iechyd (9%) a rhesymau personol (6%). Un maes y gall darparwyr fynd i'r afael ag ef yw'r 6% a nododd ansawdd wael yr addysgu.

### Siart 4.1: Pam gadawodd dysgwyr y cwrs cyn ei gwblhau (%)




Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Y rheiny na chwblhaodd y cwrs; Nid yw ymatebion o 4% neu lai wedi cael eu cynnwys





## 4.3 Ennill cymwysterau

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi ennill eu cymhwyster addysg bellach, naill ai yn rhannol neu'n llawn. Enillodd traean o ymatebwyr gymwysterau llawn ac enillodd un o bob deg eu cymwysterau yn rhannol. Fodd bynnag, ni chafodd yn agos at un o bob pump o ymatebwyr eu cymhwyster.

### Tabl 4.1: A gwblhawyd y cymhwyster addysg bellach yn ôl oedran

| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 541 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| | % | % | % | % | % |
| Do, yn llawn | 66 | 53 | 67 | 74 | 61 |
| Do, yn rhannol | 10 | 20 | 10 | 6 | 11 |
| Naddo | 19 | 21 | 19 | 17 | 22 |

Ffynhonnell: arolwg 2005

Roedd ymatebwyr rhwng 35 a 54 oed yn llawer tebycach o ennill cymhwyster llawn na'r rheiny rhwng 16 a 18 oed neu dros 55 oed (74% o'u cymharu â 53% a 61% yn y drefn honno).

Roedd ymatebwyr a enillodd eu cymhwyster yn llawn yn fwy bodlon â'u digwyddiad dysgu, a hynny ar adeg y dysgu (yr Arolwg Bodlonrwydd Dysgu) ac ar ôl ei gwblhau. Roedd ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon/fodlon iawn/eithaf bodlon â'u profiad yn 2003 yn llawer tebycach o gwblhau eu cymhwyster na'r rheiny a ddywedodd eu bod yn ddidaro/anfodlon.

Nid oedd lefelau bodlonrwydd y rheiny a enillodd eu cymhwyster yn rhannol wedi newid yn sylweddol rhwng arolwg 2003 ac arolwg 2005.

### Tabl 4.2: A gwblhawyd y cymhwyster addysg bellach yn ôl lefel bodlonrwydd

| | | Lefel bodlonrwydd o arolwg 2003 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Hynod | Iawn | Eithaf | Didaro/ Anfodlon |
| Cyfanswm | 541 | 159 | 241 | 99 | 40 |
| | % | % | % | % | % |
| Do, yn llawn | 66 | 75 | 67 | 62 | 30 |
| Do, yn rhannol | 10 | 8 | 10 | 15 | 13 |
| Naddo | 19 | 14 | 17 | 20 | 48 |

Ffynhonnell: arolwg 2005

## 4.4 Bodlonrwydd cyffredinol wrth adael/gwblhau'r cwrs

Fel rhan o'r arolwg hydredol, gofynnwyd i'r garfan ymatebwyr:

'Pan siaradom gyda chi'r tro diwethaf, dywedoch eich bod chi (lefel bodlonrwydd o arolwg 2003) â'ch profiad dysgu. Yn gyffredinol, pa mor fodlon y dwedech oeddech chi ar ddiwedd eich profiad?'

Fel y mae tabl 4.3 yn dangos, roedd bodlonrwydd â'r profiad cyffredinol yn uchel unwaith eto. Roedd y lefelau bodlonrwydd cyffredinol yn debyg i'r rheiny a gafodd eu datgan yn arolwg 2003. Roedd ymatebwyr ychydig yn llai tebygol o ddweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ac ychydig yn debycach o ddweud eu bod yn eithaf bodlon. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol. Mae'n ddiddorol sylwi nad yw cyfraddau bodlonrwydd cyffredinol yn amrywio'n sylweddol dros amser, rhwng mesur bodlonrwydd ar y cwrs, ac wedi hynny ar ôl cyflawni'r canlyniadau.

Efallai dylid gwahaniaethu rhwng y lefelau bodlonrwydd cyffredinol ymysg y grŵp dysgwyr, lle ceir newid canfyddadwy bychan yn unig, a'r ffaith y bu symud gweddol fawr yn lefelau bodlonrwydd unigolion o fewn y grŵp. Yn wir, dywedodd traean o ymatebwyr (30%) fod eu lefel fodlonrwydd wedi newid rhwng yr arolygon ac mae hyn yn cael ei drafod yn Adran 5.

Mae tabl 4.5 yn dangos bodlonrwydd cyffredinol ymatebwyr ar ddiwedd eu profiad dysgu wedi'u rhannu yn ôl oedran a rhyw. Roedd ymatebwyr benywaidd ychydig yn debycach o roi'r ddwy gyfradd fodlonrwydd uchaf na'r dynion, tra bod ymatebwyr gwrywaidd yn debycach o lawer o ddweud eu bod yn eithaf bodlon â'u profiad dysgu.

## Tabl 4.3: Bodlonrwydd cyffredinol â'r profiad dysgu

| Sylfaen: Pob ymatebydd | Arolwg 2003 | Arolwg 2005 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 541 | 541 |
| | % | % |
| Hynod fodlon | 29 | 26 |
| Bodlon iawn | 45 | 43 |
| Eithaf bodlon | 18 | 21 |
| Heb fod yn anfodlon na'n anfodlon | 2 | 1 |
| Eithaf anfodlon | 3 | 5 |
| Anfodlon iawn | 1 | 2 |
| Hynod anfodlon | 1 | 1 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys

Wrth edrych ar draws y bandiau oedran, ymatebwyr dros 55 oed oedd debycaf o ddweud eu bod naill ai'n hynod fodlon neu'n fodlon iawn, a'r lleiaf tebygol o fod yn eithaf bodlon. Ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed oedd fwyaf tueddol o ddweud eu bod yn eithaf bodlon wrth gwblhau.





## Tabl 4.4 Lefel fodlonrwydd ar ddiwedd y profiad dysgu

| | | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Hynod fodlon | 26 | 25 | 27 | 22 | 26 | 24 | 32 |
| Bodlon iawn | 43 | 41 | 45 | 33 | 46 | 45 | 46 |
| Eithaf bodlon | 21 | 26 | 18 | 35 | 19 | 20 | 12 |
| Heb fod yn anfodlon na'n anfodlon | 1 | 2 | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 |
| Eithaf anfodlon | 5 | 4 | 5 | 4 | 5 | 4 | 6 |
| Anfodlon iawn | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 | 3 | 1 |
| Hynod anfodlon | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys

## Tabl 4.5: Lefel fodlonrwydd yn ôl gradd gymdeithasol

| | | Graddfa Gymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyf. | AB | C1 | C2 | DE |
| Cyfanswm | 541 | 72 | 214 | 152 | 98 |
| | % | % | % | % | % |
| Hynod fodlon | 26 | 22 | 23 | 33 | 28 |
| Bodlon iawn | 43 | 44 | 43 | 43 | 44 |
| Eithaf bodlon | 21 | 25 | 22 | 18 | 18 |
| Heb fod yn anfodlon na'n anfodlon | 1 | 0 | 2 | 0 | 3 |
| Eithaf anfodlon | 5 | 6 | 6 | 3 | 5 |
| Anfodlon iawn | 2 | 0 | 2 | 2 | 1 |
| Hynod anfodlon | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys

### Mae newidynnau nodedig eraill mewn perthynas â bodlonrwydd yn cynnwys:

- Roedd ymatebwyr yn y graddfeydd cymdeithasol C2 a DE yn debycach o lawer o ddweud eu bod yn hynod fodlon â'u profiad dysgu (fel y mae tabl 4.6 isod yn dangos)
- Roedd ymatebwyr a adawodd addysg lawn amser o dan 16 oed yn debycach o fod wedi dweud eu bod yn hynod fodlon wrth gwblhau (31% o'u cymharu â 26% a adawodd rhwng 16 a 18 oed a'r 23% a adawodd dros 19 oed). Mae'n bosibl bod dysgwyr hŷn wedi gadael addysg yn gynt na dysgwyr ieuengach
- Roedd ymatebwyr a oedd o'r farn bod y cwrs yn berthnasol i'w hanghenion yn llawer tebycach o fod wedi dweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn wrth gwblhau (80% o'u cymharu â 43%)
- Roedd ymatebwyr a gwblhaodd y cwrs hefyd yn debycach o fod wedi dweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn na'r rheiny nad oedd wedi'i gwblhau (75% o'u cymharu â 44%).

## 4.5 Newid mewn lefelau bodlonrwydd

Mae tabl 4.6 yn edrych yn fanylach ar y gydberthynas rhwng yr ymatebion o arolwg 2003 a'r hyn a ddwedodd ymatebwyr yn fwy diweddar am fodlonrwydd cyffredinol. Mae'r ddau ymateb wedi cael eu traws tablu.

Mae'r tabl yn dangos mai dim ond 72% o ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon yn 2003 a ddwedodd yr un peth am eu profiad wrth gwblhau neu adael y cwrs. O'r rheiny a oedd yn fodlon iawn yn 2003, aeth ychydig yn fwy o bobl yn fwy anfodlon rhwng 2003 a 2005 nag a ddaeth yn fwy bodlon (mynegodd 13% eithaf bodlon a symudodd 9% i fyny i hynod fodlon). Yn fwy calonogol, dwedodd 24% o'r rheiny a oedd yn eithaf bodlon eu bod yn fodlon iawn ar ddiwedd y profiad.

Os oedd ymatebydd wedi ateb bod eu lefel fodlonrwydd yn wahanol i'r lefel yn 2003 cafodd hyn ei gofnodi ac roedd atebion traean (30%) o ymatebwyr wedi newid. Mae tabl 4.7 yn dangos canlyniad y newid bodlonrwydd hwn – p'un a oedd eu lefelau bodlonrwydd wedi codi neu gwympo.

Rhoddodd 31% o ymatebwyr roedd eu lefelau bodlonrwydd wedi newid (a 9% o'r holl ddysgwyr) raddfa un categori'n uwch, ac weithiau dau, o fewn y graddfeydd 'bodlon'.

Roedd 39% o'r holl ddysgwyr roedd eu bodlonrwydd wedi newid, wedi profi lefel o fodlonrwydd yn 2003, a oedd wedi disgyn un lefel, neu weithiau ddwy lefel, ar y raddfa fodlonrwydd.

Yn debyg i'r ymatebwyr hynny roedd eu lefel fodlonrwydd wedi codi, roedd yr ymatebwyr a deimlai bod eu bodlonrwydd wedi disgyn wedi gwneud hynny'n bennaf o fewn y graddfeydd 'bodlon'.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hyn pam roedd eu lefel fodlonrwydd wedi newid dros amser. Mae siart 4.2 yn dangos yr ymatebion hyn wedi'u dadansoddi yn ôl a oedd eu lefel fodlonrwydd wedi codi neu ddisgyn ac yn gyffredinol. Roedd yr holl ymatebion a roddwyd gan fwy na 5% o'r ymatebwyr yn gysylltiedig â'r cwrs a'r athro. Roedd y mwyafrif o'r rhesymau'n rhai cadarnhaol, er bod newid y mwyafrif o'r ymatebwyr o ran eu bodlonrwydd wedi bod yn un negyddol.

At ei gilydd, dywedodd y gyfran uchaf o ddysgwyr (12%) fod eu bodlonrwydd wedi newid oherwydd roedd y cwrs o fudd iddyn nhw ac roeddent wedi cyflawni'r hyn roeddent

[1] Y system ddosbarthu cymdeithasol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn oedd codio ymchwil marchnad o ddosbarthiadau cymdeithasol, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y diwydiant hysbysebu ac a gynhelir nawr gan y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Mae'r dosbarthiad yn un sy'n gysylltiedig â chartrefi, ar sail swydd bresennol neu flaenorol prif enillydd incwm y cartref. Caiff y dosbarthiad ei wneud ar ôl gofyn cwestiynnau, am deitl y swydd, y math o waith a wneir, y cymhwyster roedd ei angen a chyfrifoldeb goruchwylio. Yn dechnegol, mae'n ddosbarthiad chwe-ffordd, ond ar y ddau begwn mae'r ddau gategori eithaf yn cael eu cyfuno fel rheol, gan gynhyrchu'r dosbarthiad canlynol: AB – Proffesiynol a rheoli, C1 – Gweinyddol, clercyddol a choler wen eraill, C2 – Sgiliedig, gweithwyr â llaw, DE – Ansgiliedig â llaw a'r rheiny sy'n ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth.



## Tabl 4.6: Bodlonrwydd cyffredinol â'r profiad dysgu yn 2003 o gymharu â 2005

| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Hynod fodlon 2003 | Bodlon iawn 2003 | Eithaf bodlon 2003 | Didaro/ anfodlon 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 541 | 159 | 241 | 99 | *40 |
| | % | % | % | % | % |
| Hynod fodlon 2005 | 26 | 72 | 9 | 5 | 5 |
| Bodlon iawn 2005 | 43 | 18 | 74 | 24 | 8 |
| Eithaf bodlon 2005 | 21 | 7 | 13 | 64 | 10 |
| Heb fod yn anfodlon na'n anfodlon 2005 | 1 | 0 | 0 | 1 | 15 |
| Eithaf anfodlon 2005 | 5 | 2 | 2 | 4 | 35 |
| Anfodlon iawn 2005 | 2 | 1 | 0 | 0 | 15 |
| Hynod anfodlon 2005 | 1 | 0 | 0 | 0 | 10 |

Ffynhonnell: arolygon 2003 a 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys;
*Mae maint y sylfaen yn llai na 50; dylai ffigurau gael eu trin gyda gofal.

yn dymuno'i wneud. Dywedodd cyfran lai o ymatebwyr (12%) nad oeddent yn gwybod pam roedd eu lefel fodlonrwydd wedi newid dros amser. Roedd rhesymau negyddol ynglŷn â pham roedd eu bodlonrwydd wedi newid yn eithaf prin mewn gwirionedd, a'r un uchaf a fynegwyd oedd bod 'y cwrs wedi'i gynllunio'n wael' (5%).

### 4.6 Perthnasedd y cwrs i anghenion


Roedd yn agos at dri chwarter (73%) yr ymatebwyr yn teimlo bod y cwrs a fynychwyd yn 2003 yn hollol berthnasol i'w hanghenion. Teimlai ychydig dros un o bob pump (22%) fod y cwrs yn rhannol berthnasol, a dim ond 5% a ddwedodd nad oedd y cwrs yn berthnasol iddyn nhw.

## Tabl 4.7 Newid mewn lefelau bodlonrwydd

| Sylfaen: Rheiny mae eu lefel fodlonrwydd wedi newid ers arolwg 2003 | 165 |
|---|---|
| | % |
| Lefel fodlonrwydd wedi codi | 39 |
| Lefel fodlonrwydd wedi disgyn | 57 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw 'Ddim yn gwybod' wedi cael ei gynnwys

## Siart 4.2: Pam newidiodd y lefel fodlonrwydd dros amser (ymatebion o 4% a mwy)




Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: 165; % wedi'i dangos ar gyfer cyfanswm yr ymatebwyr yn unig; Nid yw ymatebion eraill wedi cael eu cynnwys; Caniatawyd ymatebion lluosog





Fel y soniwyd ynghynt, roedd yr ymatebwyr a deimlai fod y cwrs yn berthnasol i'w hanghenion wedi mynegi lefelau uwch o fodlonrwydd cyffredinol. Mae tabl 4.8 yn dangos y gydberthynas rhwng perthnasedd y cwrs a bodlonrwydd cyffredinol wrth gwblhau'r cwrs. Nid yw'n syndod gweld bod y rheiny na theimlai fod y cwrs yn berthnasol wedi mynegi llai o fodlonrwydd â'r profiad.

Roedd ymatebwyr benywaidd yn debycach o lawer na dynion o fod wedi dweud bod y cwrs yn berthnasol i'w hanghenion. Wrth edrych ar draws y grwpiau oedran, roedd ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed yn llawer llai tebygol o deimlo bod y cwrs yn hollol berthnasol.

## Tabl 4.8: Perthnasedd y cwrs i anghenion yn ôl bodlonrwydd cyffredinol

| | | Bodlonrwydd cyffredinol ar ôl cwblhau'r cwrs | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Hynod | Iawn | Eithaf | Didaro/ Anfodlon |
| Cyfanswm | 541 | 143 | 235 | 111 | 47 |
| | % | % | % | % | % |
| Hollol berthnasol | 73 | 89 | 80 | 51 | 43 |
| Rhannol berthnasol | 22 | 10 | 17 | 41 | 36 |
| Heb fod yn berthnasol iawn | 3 | 0 | 2 | 5 | 15 |
| Heb fod yn berthnasol o gwbl | 2 | 1 | 1 | 3 | 6 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; nid yw 'ddim yn gwybod' wedi cael ei gynnwys

## Tabl 4.9: Perthnasedd y cwrs i'ch anghenion yn ôl oedran a rhyw

| | | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | |
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Hollol berthnasol | 73 | 70 | 75 | 58 | 79 | 72 | 80 |
| Rhannol berthnasol | 22 | 24 | 20 | 34 | 19 | 21 | 17 |
| Heb fod yn berthnasol iawn | 3 | 3 | 3 | 1 | 2 | 5 | 3 |
| Heb fod yn berthnasol o gwbl | 2 | 3 | 1 | 7 | 0 | 2 | 1 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; nid yw 'ddim yn gwybod' wedi cael ei gynnwys

## Tabl 4.10: Perthnasedd y cwrs i'ch anghenion yn ôl graddfa gymdeithasol

| | | Graddfa/grŵp cymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | AB | C1 | C2 | DE |
| Cyfanswm | 541 | 72 | 214 | 152 | 98 |
| | % | % | % | % | % |
| Hollol berthnasol | 73 | 83 | 76 | 71 | 63 |
| Rhannol berthnasol | 22 | 14 | 19 | 25 | 29 |
| Heb fod yn berthnasol iawn | 3 | 3 | 3 | 1 | 6 |
| Heb fod yn berthnasol o gwbl | 2 | 0 | 2 | 3 | 2 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; nid yw 'ddim yn gwybod' wedi cael ei gynnwys

**Mae rhai newidynnau eraill sy'n ddiddorol i'w nodi'n cynnwys:**

- Roedd ymatebwyr a oedd yn cael eu cyflogi yn 2005 yn debycach o deimlo bod y cwrs yn berthnasol i'w hanghenion na'r rheiny nad oeddent mewn cyflogaeth (76% o'u cymharu â 69%)
- Roedd ymatebwyr o raddfa gymdeithasol AB yn debycach o ganfod bod eu cwrs yn hollol berthnasol, fel y gellir gweld yn nhabl 4.10
- Nid yw'n syndod bod ymatebwyr a gwblhaodd y cwrs yn debycach o lawer o deimlo'i fod yn hollol berthnasol (76% o'u cymharu â 59% na chwblhaodd eu cwrs).

## 4.7 Bodloni'r disgwyliadau gwreiddiol o'r cwrs

Yn arolwg 2003, gofynnwyd y canlynol i'r ymatebwyr:

'Cyn i chi ddechrau, a oeddech chi'n disgwyl y byddai'r hyfforddiant yn eich galluogi chi i gael unrhyw rai o'r canlynol?'

- Swydd wahanol/swydd well
- Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddech yn ei gwneud ar y pryd
- Y gallu i wneud cynnydd drwy eich gyrfa'n gyffredinol
- Mwy o foddhad o'ch gwaith
- Mynd ar gyrsiau eraill neu gael addysg bellach
- Gwella'ch gwybodaeth am y pwnc
- Ennill sgiliau newydd
- Gwella'ch datblygiad personol
- Cyfarfod â phobl newydd
- Gwneud rhywbeth defnyddiol â'ch amser hamdden.

Cafodd eu hymatebion eu holrhain yn arolwg 2005, pan ofynnwyd iddyn nhw:

'Yn yr arolwg diwethaf, gofynnom i chi beth oeddech yn disgwyl ei ennill o'r dysgu. Ar gyfer pob un ohonynt, a fyddech chi'n dweud bod eich disgwyliadau wedi cael eu bodloni'n llawn, eu bodloni'n rhannol, heb eu bodloni o gwbl neu ddim yn berthnasol i mi?' Mae tabl 4.11 yn dangos yr ymatebion. Mae'r holl ymatebwyr a atebodd 'ddim yn berthnasol i mi' wedi cael eu dileu o'r sylfaen, felly dim ond ymatebwyr a gytunodd fod y rhain yn ddisgwyliadau o arolwg 2003 sy'n cael eu cynnwys yn y ffigurau.





Fel y gellir gweld o dabl 4.11, roedd dros hanner yr holl ymatebwyr yn cytuno bod pob disgwyliad wedi'i fodloni'n llawn. Cytunodd rhyw dri chwarter fod y disgwyliadau canlynol wedi cael eu bodloni'n llawn:

- Cyfarfod â phobl newydd
- Gwella'ch gwybodaeth am y pwnc
- Gwneud rhywbeth â'ch amser hamdden
- Ennill sgiliau newydd.

Mae'n amlwg bod y rhain yn ddisgwyliadau 'meddal', lle teimlwyd yn llai aml bod yr amcanion mwy mesuradwy fel 'y gallu i wneud cynnydd drwy eich gyrfa'n gyffredinol', 'mynd ar gyrsiau eraill neu gael addysg bellach' a 'chael swydd wahanol/gwell swydd' wedi cael eu cyflawni. Fodd bynnag, cyflawnwyd yr amcanion mwy mesuradwy hyn gan gyfran uchel o ymatebwyr ac mae hwn yn ddarganfyddiad calonogol ac arwyddocaol.

### 4.8 Effaith y cwrs

Gofynnwyd i ymatebwyr fyfyrio ar a oedd eu cwrs wedi helpu â dyheadau penodol.

Darllenwyd un ar ddeg o ddyheadau enghreifftiol i ymatebwyr ac fe'u gwahoddwyd i ddewis unrhyw rai ohonynt roedd y cwrs wedi rhoi cymorth iddyn nhw â'r dyheadau. Mae'r siart isod yn dangos yr ymatebion cyffredinol. Fel y gellir gweld, dywedodd wyth allan o 10 fod y cwrs wedi eu helpu nhw i fagu mwy o hyder, dywedodd tri chwarter ei fod wedi'u helpu nhw i wneud ffrindiau newydd a dywedodd dros ddwy ran o dair ei fod wedi'u helpu nhw i gadw i fyny â thechnoleg newydd neu ennill cymhwyster.


Gellir categoreiddio'r dyheadau hyn yn rhai personol, cysylltiedig â dysgu a chysylltiedig â gyrfa. Mae'r ddwy effaith uchaf ill dwy'n gysylltiedig â rhesymau personol.

## Tabl 4.11: Os diwellir goblygiadau 2003

| Sylfaen: Pob un â disgwyliadau cyn y cwrs | Cyfanswm | Wedi cwrdd yn llawn | Wedi cwrdd yn rhannol | Heb gwrdd â'r disgwyl |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 541 | % | % | % |
| Cyfarfod â phobl newydd | 419 | 77 | 17 | 5 |
| Gwella'ch gwybodaeth am y pwnc | 517 | 75 | 22 | 3 |
| Gwneud rhywbeth defnyddiol â'ch amser hamdden | 388 | 74 | 19 | 6 |
| Ennill sgiliau newydd | 502 | 72 | 24 | 4 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddech yn ei gwneud ar y pryd | 225 | 69 | 26 | 4 |
| Cael mwy o foddhad o'ch gwaith | 322 | 67 | 28 | 5 |
| Gwella'ch datblygiad personol | 483 | 66 | 30 | 4 |
| Y gallu i wneud cynnydd drwy eich gyrfa'n gyffredinol | 310 | 59 | 33 | 7 |
| Mynd ar gyrsiau eraill neu gael addysg bellach | 317 | 59 | 21 | 18 |
| Cael swydd wahanol/swydd well | 215 | 51 | 33 | 15 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; nid yw 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol i mi' wedi cael eu cynnwys yn y sylfaen

## Siart 4.3: Y dyheadau yr helpodd y cwrs i'r ymatebwyr eu cyflawni (% oll yn cytuno)




Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd (541); nid yw 'ddim yn gwybod' ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; Caniatawyd ymatebion lluosog

O ran rhyw, roedd menywod yn debycach o fod wedi cytuno bod y cwrs wedi helpu â'r mwyafrif o'r dyheadau na'u cymheiriaid gwrywaidd ac eithrio gydag un datganiad. Roedd dynion yn debycach o gytuno bod eu cwrs wedi'u helpu nhw 'i gadw i fyny â thechnoleg' na menywod. Cytunodd yr un nifer o ddynion a menywod (17%) ei fod wedi'u help nhw i 'fynd i'r brifysgol'.

Wrth edrych ar draws y grwpiau oedran, roedd ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed pan gawsant eu cyfweld yn 2005 llawer tebycach o ddweud bod y cwrs wedi'u helpu nhw gyda'r holl ddyheadau, ac eithrio 'magu mwy o hyder' a 'chadw i fyny â thechnoleg'. Roedd ymatebwyr dros 55 oed yn llawer llai tebygol
o fod wedi cytuno â'r holl ddatganiadau ac eithrio:

- Magu mwy o hyder
- Gwneud ffrindiau newydd
- Cadw i fyny â thechnoleg newydd.

Dylid nodi'r posibilrwydd bod yr ymatebion cyferbyniol ymysg y demograffig yn deillio o ddyheadau gwahanol yn hytrach nag o brofiadau gwahanol o'r modd y bodlonodd y cwrs eu dyheadau.





## Tabl 4.12: Effaith y cwrs ar ddyheadau yn ôl oedran a rhyw

| | | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Magu mwy o hyder | 83 | 79 | 84 | 81 | 81 | 85 | 81 |
| Gwneud ffrindiau newydd | 74 | 70 | 76 | 86 | 66 | 74 | 72 |
| Cadw i fyny â thechnoleg newydd | 69 | 72 | 67 | 68 | 51 | 70 | 81 |
| Ennill cymwysterau | 67 | 58 | 72 | 79 | 75 | 71 | 47 |
| Symud ymlaen yn fy ngyrfa | 52 | 50 | 53 | 69 | 65 | 61 | 19 |
| Ennill mwy o arian | 37 | 28 | 41 | 45 | 55 | 40 | 15 |
| Cael swydd well | 33 | 28 | 35 | 47 | 43 | 37 | 10 |
| Sicrwydd swydd | 32 | 27 | 35 | 41 | 39 | 39 | 12 |
| Cael swydd | 30 | 28 | 32 | 48 | 45 | 33 | 6 |
| Ennill dyrchafiad | 26 | 24 | 28 | 37 | 28 | 33 | 9 |
| Mynd i'r brifysgol | 17 | 17 | 17 | 41 | 30 | 11 | 3 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw 'ddim yn gwybod' ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; Caniateir ymatebion lluosog

Fel y mae tabl 4.13 isod yn dangos, roedd ymatebwyr o raddfa gymdeithasol AB yn llai tebygol na graddfeydd cymdeithasol eraill o fod wedi cytuno bod eu cyrsiau wedi cael unrhyw rai o'r effeithiau a restrwyd.

### 4.9 Sgiliau a ddefnyddir yn eu swydd a gafwyd o'r cwrs

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn gyflogedig ar y pryd a oedd unrhyw sgiliau a ddefnyddient yn eu swyddi presennol yn rhai a gafwyd o'u cwrs. O'r 336 o ymatebwyr a oedd yn gweithio ar y pryd, dywedodd 56% eu bod yn defnyddio sgiliau a gafwyd o'u cwrs.

Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn defnyddio sgiliau a gafwyd o'r cwrs beth oedd y sgiliau. Cwestiwn pen agored oedd hwn. Fel y gellir gweld yn nhabl 4.14 isod, dywedodd ychydig o dan draean o ymatebwyr eu bod wedi dysgu sgiliau cyfrifiadurol o'u cyrsiau. Yn ddiddorol, enwodd llawer o ddysgwyr sgiliau a oedd yn atodol at y dysgu fel rhai roeddent wedi'u cael o'r cwrs fel sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol.

## Tabl 4.13: Effaith y dyheadau ar y cwrs yn ôl graddfa gymdeithasol

| | | Graddfa Gymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | AB | C1 | C2 | DE |
| Cyfanswm | 541 | 72 | 214 | 152 | 98 |
| | % | % | % | % | % |
| Magu mwy o hyder | 83 | 74 | 80 | 86 | 89 |
| Gwneud ffrindiau newydd | 74 | 60 | 74 | 78 | 78 |
| Cadw i fyny â thechnoleg newydd | 69 | 67 | 69 | 69 | 70 |
| Ennill cymwysterau | 67 | 63 | 68 | 69 | 63 |
| Symud ymlaen yn fy ngyrfa | 52 | 33 | 55 | 61 | 46 |
| Ennill mwy o arian | 37 | 22 | 40 | 39 | 39 |
| Cael swydd well | 33 | 22 | 37 | 36 | 27 |
| Sicrwydd swydd | 32 | 18 | 36 | 39 | 26 |
| Cael swydd | 30 | 17 | 35 | 35 | 27 |
| Ennill dyrchafiad | 26 | 21 | 30 | 29 | 19 |
| Mynd i'r brifysgol | 17 | 13 | 18 | 19 | 16 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw 'ddim yn gwybod' ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; Caniatawyd ymatebion lluosog





### Table 4.14: Sgiliau a ddefnyddir mewn swydd bresennol a gafwyd o'r cwrs

| Sylfaen: Pob ymatebydd sydd yn dysgu yn barod | Cyfanswm |
|---|---|
| Cyfanswm | 139 |
| | % |
| Sgiliau cyfrifiadurol/gwybodaeth benodol am feddalwedd | 29 |
| Sgiliau cyfathrebu/gwrando | 16 |
| Sgiliau delio â phobl/rhyngbersonol | 10 |
| Sgiliau addysgu/hyfforddi/cynllunio gwersi | 7 |
| Datblygu mwy o hyder | 7 |
| Sgiliau iechyd a diogelwch | 5 |
| Sgiliau cyflwyno/siarad cyhoeddus | 4 |
| Gofal cleifion/gofalu | 4 |
| Sgiliau trydanol/mecanyddol/technegol | 4 |
| Sgiliau creadigol/dylunio/tynnu lluniau/ffotograffiaeth | 4 |
| Trafod â llaw/Sgiliau llaw/peiriannu | 4 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw 'ddim yn gwybod' ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; Caniatawyd ymatebion lluosog; dim ond ymatebion dros 4% a restrir

## 4.10 Crynodeb

Roedd dros wyth o bob deg (83%) ymatebydd wedi cwblhau'r cwrs roeddent yn ymgymryd ag ef yn ystod arolwg 2003. O'r rheiny na chwblhaodd y cwrs, dywedodd ychydig yn llai na chwarter (23%) eu bod yn astudio ar yr un cwrs o hyd.

Roedd dau o bob tri (66%) ymatebydd wedi ennill y cymwysterau roeddent yn astudio ar eu cyfer yn 2003 yn llawn. Roedd un o bob deg ymatebydd hefyd wedi ennill eu cymwysterau'n rhannol. Nid oedd lefelau bodlonrwydd y rheiny a oedd wedi ennill eu cymwysterau'n rhannol wedi newid yn sylweddol rhwng arolwg 2003 ac arolwg 2005.

Nid yw'n syndod bod y rheiny a enillodd eu cymhwyster yn fwy bodlon adeg y dysgu ac ar ôl cwblhau na'r rheiny na enillodd eu cymhwyster.

Roedd yr ymatebion bodlonrwydd cyffredinol yn 2005 yn debyg iawn i'r rheiny yn 2003. Mae cydberthynas uniongyrchol rhwng y lefel fodlonrwydd a nodwyd tra'n dilyn y cwrs a'r lefel a nodwyd ar ôl cwblhau.

Dywedodd traean o ymatebwyr i gyd fod lefel eu bodlonrwydd wedi newid ers 2003. Dywedodd 72% a oedd yn hynod fodlon yn 2003 yr un peth am eu profiad yn 2005. O'r rheiny a oedd yn fodlon iawn yn 2003, aeth ychydig mwy ohonynt yn llai positif nag a ddaeth yn fwy positif (dywedodd 13% eu bod yn eithaf bodlon a symudodd 9% i fyny i hynod fodlon). Yn fwy calonogol, dywedodd 24% o'r rheiny a oedd yn eithaf bodlon yn wreiddiol eu bod yn fodlon iawn ar ddiwedd y profiad.

Teimlai ychydig o dan dri chwarter o ymatebwyr fod y cwrs yn hollol berthnasol i'w hanghenion, a chanfu pumed ran bellach (22%) fod y cwrs yn rhannol berthnasol. Roedd ymatebwyr a ganfu'r cwrs yn berthnasol i'w hanghenion yn debycach o fynegi lefelau uwch o fodlonrwydd.

Cytunodd dros hanner yr holl ymatebwyr fod yr holl ddisgwyliadau a oedd ganddynt ar gyfer y cwrs yn 2003 wedi cael eu bodloni.

# 5.0 DIGWYDDIADAU DYSGU ERS CWRS 2003

## 5.1 Cyflwyniad

Gofynnwyd i ymatebwyr pa ddysgu roeddent wedi ymgymryd ag ef, os o gwbl, ers eu cwrs yn 2003. Gofynnwyd i ymatebwyr feddwl am y digwyddiad diweddaraf a gweithio'n ôl.

## 5.2 Nifer y digwyddiadau dysgu ers cwrs 2003

Roedd tri allan o ddeg ymatebydd (31%) wedi ymgymryd ag un cwrs arall ers gadael/gorffen yr un roeddent yn ei fynychu yn 2003. Roedd 5% arall wedi ymgymryd â mwy nag un cwrs. O'r rheiny yn arolwg 2005, mae hynny'n golygu bod ychydig dros draean (36%) wedi dychwelyd i ddysgu neu i hyfforddi o fewn llai na thair blynedd.

Roedd menywod ychydig yn debycach na dynion o fod wedi dychwelyd i ddysgu ac roedd ymatebwyr iau yn llawer tebycach nag ymatebwyr hŷn o fod wedi gwneud hynny (41% o'r rheiny rhwng 16 a 18 oed o'u cymharu â 30% o'r rheiny rhwng 35 a 44 oed). Roedd cyfran uchel o'r ymatebwyr yn ystod arolwg 2003 a oedd wedi'u categoreiddio rhwng 16 a 18 oed yn 18 neu'n 19 oed yn ystod arolwg 2005 ac roedd llawer ohonynt wedi mynd ymlaen i gyrsiau addysg bellach neu addysg uwch eraill.

Roedd ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn â'u profiad dysgu yn 2003 yn debycach o lawer o ddychwelyd i ddysgu (gweler tabl 5.2). Dychwelodd dri deg wyth y cant o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn hynod fodlon a 40% o'r rheiny a oedd yn fodlon iawn â'u digwyddiad dysgu yn 2003 i ddysgu. Mae'r gyfradd yn gostwng yn sylweddol mewn perthynas â'r rheiny a oedd ond yn eithaf bodlon â'u profiad dysgu (dim ond 26% o'r grŵp hwn ddychwelodd i ddysgu o fewn tair blynedd).

Roedd ymatebwyr a gwblhaodd eu cwrs yn 2003 (yn wahanol i'r rheiny na wnaeth) yn debycach o lawer o fod wedi dychwelyd i ddysgu ers gadael (39% o'u cymharu ag 20% o'r rheiny na wnaeth gwblhau).

Mae'r cyswllt a ganfuwyd yma rhwng bodlonrwydd a dysgu eto yn un arwyddocaol ac mae'n ychwanegu mwy o bwysau at yr awgrym bod ansawdd profiad y dysgwr (ynghyd â'r cymwysterau a enillir, y perfformiad ac asesiad) yn hanfodol yn yr agenda dysgu gydol oes.

### Tabl 5.1: Ymatebwyr yn dychwelyd i ddysgu yn ôl rhyw ac oedran

| | | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Do | 36 | 33 | 38 | 41 | 48 | 30 | 34 |
| Naddo | 64 | 67 | 62 | 59 | 52 | 70 | 66 |

Ffynhonnell: arolwg 2005





### Tabl 5.2: Ymatebwyr yn dychwelyd i ddysgu yn ôl lefel fodlonrwydd a chwblhad

| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Bodlon eithriadol | Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Cwrs wedi'i gwblhau | Cwrs heb ei gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 541 | 159 | 241 | 99 | 448 | 93 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Do | 36 | 38 | 40 | 26 | 39 | 20 |
| Naddo | 64 | 62 | 60 | 74 | 61 | 80 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Y sylfaen yn rhy isel i'r tabl gynnwys ymatebwyr anfodlon

Mae'r adran hon yn parhau i drafod y digwyddiad diweddaraf yn fanwl ar gyfer ymatebwyr. Mae gweddill yr adran hon yn edrych ar ba fathau o ddysgu y dychwelodd yr ymatebwyr iddynt, beth wnaeth eu symbylu nhw i ddysgu eto ac a wnaethon nhw gwblhau'r digwyddiad dysgu hwn neu adael yn gynnar.

## 5.3 Y digwyddiad dysgu diweddaraf

### 5.3.1 Y math o ddysgu

Er mwyn rhoi cefndir i'r 31% o ymatebwyr a ddychwelodd i ddysgu, mae'n werth edrych ar ba gymhwyster, os oedd un, yr arweiniodd eu cwrs ato a pha bynciau yr aethant yn eu blaenau i'w hastudio.

Gofynnwyd i bob ymatebydd a oedd yn dysgu adeg yr ail gyfweliad pa gymhwyster roeddent yn ei ddilyn, os oedd un. Nid oedd 7% o'r rheiny a oedd yn dysgu ar y pryd yn ymgymryd â chymhwyster o gwbl. Dywedodd yn agos at chwarter (23%) eu bod yn ymgymryd â chymhwyster ar lefel gradd, dywedodd 15% eu bod yn gwneud CGC a dywedodd 6% eu bod yn ymgymryd â chymhwyster ar lefel mynediad.

### Tabl 5.3: Pam fod ffactor mor bwysig wrth ddychwelyd at ddysgu

| Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n dysgu ar hyn o bryd | Digwyddiad dysgu diweddaraf |
|---|---|
| Cyfanswm | 139 |
| | % |
| Cymhwyster lefel gradd | 23 |
| CGC | 15 |
| Cymhwyster/tystysgrif lefel mynediad | 6 |
| BTEC/BEC/TEC/EdExcel | 5 |
| Lefel A/Lefel A Alwedigaethol neu gyfwerth | 4 |
| Rhwydwaith y Coleg Agored | 4 |
| Cyrsiau ECDL/CLAIT | 4 |
| City and Guilds | 3 |
| TGAU/TGAU Alwedigaethol | 3 |
| Diploma mewn addysg uwch | 3 |
| Dim cymhwyster | 7 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Mae'r tabl yn dangos ymatebion gyda 3% neu'n uwch ar gyfer y diweddaraf

O ran y maes pwnc, mae'r cyrsiau a gafodd eu crybwyll amlaf wedi'u rhestru isod:

- TGCh (23%)
- Gofal iechyd, cymdeithasol a phlant (22%)
- Y celfyddydau a'r cyfryngau (11%)
- Busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith (8%)
- Ieithoedd heblaw am Saesneg a Chymraeg (6%).

### 5.3.2 Rhesymau dros ddychwelyd i ddysgu


Gofynnwyd i ymatebwyr pam roeddent wedi penderfynu ymgymryd â'u digwyddiad dysgu diweddaraf. Roedd y rhesymau a gafodd eu crybwyll gan y mwyafrif o ymatebwyr yn gysylltiedig â:

- Diddordeb yn y pwnc (35%)
- Dysgu sgiliau ar gyfer swydd (28%) a/neu
- Dysgu sgiliau ar gyfer swydd y byddent o bosibl yn dymuno'i chael yn y dyfodol (21%).

Roedd rhai gwahaniaethau yn ôl oedran a rhyw a oedd yn gysylltiedig â rhesymau'r ymatebydd dros ymgymryd â'r cwrs:

- Roedd menywod a'r grŵp dros 55 oed yn debycach o grybwyll diddordeb yn y pwnc na dynion neu ymatebwyr ieuengach
- Roedd dynion yn debycach na menywod o grybwyll ennill sgiliau ar gyfer swydd bresennol (32% o'u cymharu â 26%)
- Roedd y rheiny rhwng 16 a 18 oed yn cael eu symbylu'n fwy o lawer gan gymwysterau na'r cyfartaledd o fewn y grŵp (dywedodd 30% i ennill cymhwyster). Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd y rheiny rhwng 16 a 18 oed yn cael eu symbylu i ddysgu mwy gan eu diddordeb yn y pwnc (38%) ac i ddysgu sgiliau ar gyfer swydd yn y dyfodol (32%).

## Siart 5.1: Rhesymau dros ymgymryd â dysgu




Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: pawb sy'n dysgu ar hyn o bryd (139); Nid yw 'ddim yn gwybod' ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; Caniatawyd ymatebion lluosog; Ymatebion dros 2% wedi'u cynnwys.





## Tabl 5.4: Pam fod ffactor mor bwysig wrth ddychwelyd at ddysgu

| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Diddordeb yn y pwnc | 35 | 32 | 37 | 38 | 33 | 30 | 43 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd bresennol/flaenorol | 28 | 32 | 26 | 27 | 31 | 38 | 14 |
| Dysgu sgiliau ar gyfer swydd yn y dyfodol | 21 | 23 | 20 | 32 | 29 | 20 | 4 |
| Cael cymhwyster | 15 | 18 | 14 | 30 | 21 | 10 | 4 |
| Cam i addysg bellach | 11 | 5 | 14 | 22 | 15 | 10 | 2 |
| Datblygu sgiliau TG | 10 | 11 | 10 | 5 | 4 | 7 | 24 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw 'ddim yn gwybod' ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; Caniatawyd ymatebion lluosog; Nid yw ymatebion o 2% neu'n llai wedi'u cynnwys.

## 5.4 Pam fod ffactor mor bwysig wrth ddychwelyd at ddysgu

### 5.4.1 Pwysigrwydd cyffredinol ffactorau ar symbyliad i ddysgu

Rhoddwyd rhestr i'r holl ymatebwyr o ffactorau amrywiol a allai fod wedi'u symbylu nhw i ddysgu, neu beidio, a gofynnwyd iddynt raddio'u pwysigrwydd. Roedd y rhain yn troi'n bennaf o gwmpas mynediad at adnoddau, amser, cefnogaeth gan athrawon neu diwtoriaid a chymorth ariannol. Mae siart 5.2 yn dangos y canlyniadau cyffredinol a gwnaed yr arsylwadau isod.

Nododd yr ymatebion yn arolwg 2003 bwysigrwydd bodlonrwydd ag athrawon/tiwtoriaid o ran gyrru bodlonrwydd cyffredinol. Mae'r data o arolwg 2005 eto'n amlygu pwysigrwydd ansawdd yr addysgu. Gwyddom fod hyn yn gyrru bodlonrwydd a gwyddom hefyd fod y rheiny sy'n fwy bodlon yn dychwelyd i ddysgu. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau hyn yn dangos bod 50% o ymatebwyr yn dweud bod 'cefnogaeth athro/hyfforddwr' yn bwysig iawn o ran eu symbylu i ddysgu eto a dywedodd 32% pellach ei fod yn eithaf pwysig.

Y ffactorau a gafodd eu graddio'n bwysig iawn gan o leiaf 40% o ymatebwyr oedd:

- Cefnogaeth athro/hyfforddwr (50%)
- Yr angen i wella'ch hunan (47%)
- Ennill cymhwyster (42%)
- Datblygiad personol (41%).

Yn achos rhai ffactorau mae edrych ar raddfeydd pwysig 'iawn' ac 'eithaf' pwysig gyda'i gilydd yn fwy dadlennol. Y rheswm dros hyn yw er nad ydynt o bosibl yn profi i fod yn bwysig iawn i gyfrannau uchel o ymatebwyr, maen nhw'n bwysig i ryw raddau i bron pob ymatebydd.


Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr fod y ffactorau canlynol naill ai'n bwysig iawn neu'n eithaf pwysig yn eu penderfyniad i ddychwelyd i ddysgu:

- Yr angen i wella'ch hunan (dywedodd 89% naill ai pwysig iawn neu eithaf pwysig)
- Datblygiad personol (86%)
- Cefnogaeth athro/hyfforddwr (82%)
- Yr amser i'w ymrwymo i ddysgu (77%)
- Cyfuno dysgu a gartref (76%).

Nid yw rhai ffactorau'n gymwys i rai unigolion. Er enghraifft:

- Cyfleoedd gwaith/gyrfa yn gysylltiedig â'r dysgu (dywedodd 21% nad yw'n gymwys)
- Y gallu i gyfuno dysgu â gwaith (20%)
- Costau'r cwrs fel ffioedd cwrs, deunyddiau a theithio (17%)
- Cefnogaeth teulu (13%)
- Ansawdd technoleg (11%)
- Mynediad i dechnoleg (11%).

## Siart 5.2: Pwysigrwydd ffactorau er mwyn dychwelyd i ddysgu




Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd (541); Nid yw'r ymatebion 'ddim yn gwybod' ac 'arall' wedi cael eu cynnwys; Caniatawyd ymatebion lluosog;



Mae'r adran nesaf yn archwilio'r ffactorau uchod. I hwyluso'r darllen, maent wedi'u categoreiddio yn y grwpiau canlynol:

### Addysgu

Cefnogaeth athro-tiwtor

### Cyfrifoldebau eraill

Family support
Combining learning and home
Amount of time to commit to learning

### Symbyliadau

Cyfuno dysgu â gwaith
Cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gyrfa
Datblygiad personol
Ennill cymhwyster
Yr awydd i wella'u hunain

### Logisteg adnoddau a chostau

Mynediad i dechnoleg
Ansawdd y dechnoleg
Costau ffioedd deunyddiau teithio

### 5.4.2 Cefnogaeth addysgu

Roedd cefnogaeth athro'n bwysicach i fenywod nag yr oedd i ddynion (roedd 52% yn ei raddio'n bwysig iawn o'u cymharu â 46% o ddynion). Roedd yn bwysicach i rai canol oed, 35-54 oed, yn hytrach nag i'r categorïau ieuengaf neu hynaf o ymatebwyr (dywedodd 55% ei fod yn bwysig iawn o gymharu â 46% o'r rheiny rhwng 16 a 18 oed a 44% o'r ymatebwyr dros 55). Yn yr un modd roedd cefnogaeth y teulu yn bwysicach o lawer i fenywod (42% o gymharu â 33%). O ran oedran, roedd mwy o arwyddocâd i'r math hwn o gefnogaeth i ymatebwyr o dan 55 oed.

## Tabl 5.5: Pam fod ffactor mor bwysig wrth ddychwelyd at ddysgu

| | | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| Cefnogaeth athro | % | % | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 50 | 46 | 52 | 46 | 51 | 55 | 44 |
| Eithaf pwysig | 32 | 32 | 31 | 34 | 34 | 28 | 34 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys

## Tabl 5.6: Pam fod ffactor mor bwysig wrth ddychwelyd at ddysgu

| | | Graddfa Gymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | AB | C1 | C2 | DE |
| Cyfanswm | 541 | 72 | 214 | 152 | 98 |
| Cefnogaeth athro | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 50 | 43 | 48 | 56 | 50 |
| Eithaf pwysig | 32 | 35 | 33 | 29 | 30 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys

Roedd grŵp economaidd gymdeithasol AB yn llai tebygol o sôn bod cefnogaeth athro/tiwtor yn bwysig iawn wrth eu symbylu nhw i ddysgu na phob grŵp arall.

Yn gyffredinol roedd y rheiny a deimlai'n negyddol am ddysgu wrth adael yr ysgol ychydig yn debycach na'r cyfartaledd o ddweud bod cefnogaeth athro'n bwysig wrth eu symbylu nhw i ddysgu.

## Tabl 5.7: Pwysigrwydd cefnogaeth athro i ddychwelyd i ddysgu yn ôl teimladau am addysg wrth adael ysgol

| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Teimladau cadarnhaol yn gyffredinol | Teimladau negyddol yn gyffredinol | Dim teimladau'r naill ffordd na'r llall |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 541 | 247 | 113 | 158 |
| Cefnogaeth athro/tiwtor | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 50 | 48 | 52 | 51 |
| Eithaf pwysig | 32 | 35 | 33 | 25 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys

Os dywedodd yr ymatebydd fod ffactor yn bwysig iawn o ran eu symbylu nhw i ddysgu, gofynnwyd iddynt beth oedd y rheswm am hyn. Cafodd eu hatebion eu codio a rhoddwyd y prif atebion yn siart 5.3. Darperir rhai dyfyniadau o dan siart 5.3 a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Cafwyd neges glir bod ar yr athrawon/tiwtoriaid angen gallu llywio'r ymatebydd, i'w harwain. Er y cafodd eu proffesiynoldeb o ran eu gallu i addysgu pwnc ei grybwyll, gwnaed mwy o gyfeiriadau at eu gallu i gefnogi a'u dealltwriaeth.





### Cefnogaeth athro/tiwtor

*"Pan nad yw pethau'n mynd yn iawn mae arnoch chi angen (cael eich dangos) y ffordd gywir i fynd. Cefais broblemau â f'aseiniad ac roeddwn yn fy nagrau a siaradais i gyda'r athro a heb y gefnogaeth yna byddwn i ddim wedi'i wneud. Mae'r arweiniad a'u cefnogaeth yn bwysig iawn."*

*"Gall y tiwtor greu brwdfrydedd yn enwedig os yw'ch un chi'n brin. Mae rôl y tiwtor hefyd yn bwysig i ailgysylltu pobl â dysgu yn enwedig y rheiny sydd heb astudio ers tro."*

*"Mae gennyf broblemau iechyd o hyd felly mae cefnogaeth y tiwtor yn hanfodol gan fod fy mhroblemau yn achosi problemau o hyd o ran mynychu felly mae cefnogaeth yn bwysig i f'alluogi i i gadw i fyny."*

*"Mae gen i anawsterau dysgu. Mae angen esbonio pethau'n wahanol i mi weithiau."*

*"Mae'r athro'n rhoi mwy o hyder i chi."*

## Tabl 5.8: Pam mae'r ffactor hwn mor bwysig? Cwestiwn agored i archwilio manylion

| Rhesymau dros bwysigrwydd cryf ar symbyliad at ddysgu | |
|---|---|
| **Cefnogaeth athro/tiwtor** | **%** |
| Angen arweiniad/eu hangen nhw i'ch llywio chi/cynnydd | 38 |
| Angen bod yn hawdd mynd ato/dangos dealltwriaeth | 21 |
| Yn eich symbylu chi'n fwy | 13 |
| Angen tiwtoriaid i'ch addysgu chi'n gywir/bod â'r sgiliau cywir | 10 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd (541); ymatebion wedi'u codio a gafodd eu crybwyll 10% neu'n fwy

*"Mae'r athro'n eich helpu chi ac os oes gennych athro da yna rydych chi'n gwneud yn dda. Rhoi anogaeth, yn eich symbylu chi."*

*"Am fod rhywun yno'n eich cefnogi chi. Rhoi hwb i'ch hyder/rhoi adborth i chi."*

### 5.4.3 Cyfrifoldebau eraill

Roedd menywod yn debycach o lawer na dynion o ddweud bod yr holl ffactorau hyn yn bwysig. Mae'r gwahaniaethau mewn canrannau'n cael eu pwysleisio isod:

- Dywedodd 44% o fenywod fod y gallu i gyfuno dysgu â'r cartref yn bwysig iawn (13% yn uwch na dynion)
- Dywedodd 36% o fenywod fod cael amser i ymrwymo i ddysgu yn bwysig iawn (6% yn uwch na dynion).

Roedd cyfuno dysgu â'r cartref yn bwysicach o lawer i ymatebwyr yn y bandiau oedran canol (19 – 34 a 35 – 54) na'r rheiny ar y ddau begwn (16 – 18 a dros 55). Roedd y rheiny â chyfrifoldebau gartref yn debycach o ddweud bod hyn yn bwysig iawn iddyn nhw.

Unwaith eto os dywedodd yr ymatebydd fod ffactor yn bwysig iawn o ran eu symbylu nhw i ddysgu gofynnwyd iddyn nhw am y rheswm dros hyn. Rhoddwyd cod i'w hatebion a cynhwysir rhai dyfyniadau yn nhabl 5.4.

O ran cefnogaeth y teulu dywedodd 54% o'r rheiny a ddywedodd fod yr agwedd hon yn bwysig iawn o ran eu symbylu nhw i ddysgu fod ei angen arnoch fel y gallwch chi ymdopi, i ddod drwy'r profiad.

Roedd pwysau amser yn llawer mwy perthnasol i bwysigrwydd gallu cyfuno dysgu a bywyd cartref. Roedd ymatebwyr eisiau, ac roedd arnynt angen, treulio amser gyda'u teuluoedd ac unwaith eto, ni ellid cyfaddawdu ar yr ymrwymiad hwn ar draul dysgu.

O ran dod o hyd i'r amser i ymrwymo i ddysgu, roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn siarad mewn perthynas â rheoli'u hamser, gan sicrhau bo

## Tabl 5.9: Pwysigrwydd ffactorau i ddychwelyd i ddysgu yn ôl rhyw ac oedran

| | | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| Cefnogaeth teulu | % | % | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 39 | 33 | 42 | 38 | 40 | 28 | 28 |
| Eithaf pwysig | 30 | 29 | 31 | 33 | 34 | 9 | 30 |
| Y gallu i gyfuno dysgu a'r cartref | % | % | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 39 | 31 | 44 | 25 | 52 | 50 | 26 |
| Eithaf pwysig | 37 | 38 | 37 | 38 | 31 | 33 | 46 |
| Faint o amser y gallaf i ymrwymo i ddysgu | % | % | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 34 | 30 | 36 | 38 | 43 | 34 | 23 |
| Eithaf pwysig | 43 | 42 | 44 | 41 | 43 | 42 | 46 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys

digon o amser hamdden ganddynt i ymroi. Yn ddiddorol roedd nifer sylweddol o ymatebwyr wedi sôn petawn nhw'n ymgymryd â'r dysgu, credent fod angen iddyn nhw roi 100% iddo ac o fethu â gwneud hynny, ni fyddent yn elwa.

### Cefnogaeth teulu

*"Oherwydd rydych chi angen eich teulu tu cefn i chi – cefnogaeth ariannol."*

*"Roedd cefnogaeth gan y gŵr yn hanfodol i'm galluogi i i wneud y cwrs oherwydd bod cael 3 o blant yn golygu bod angen edrych ar eu hôl nhw i gyd."*

*"Dylai rhieni gefnogi plant â phopeth."*

*"I roi amser i chi wneud gwaith cartref ac i'ch annog chi."*

*"Mae gen i deulu, os na fydden nhw yno i'm cefnogi i, byddai dim modd i mi wneud e."*

*"Mae fy ngŵr yn fy nghodi a 'nghasglu i o'r coleg, mae fy merch yn fy helpu i o gwmpas y tŷ?"*

*"Mae gen i ddau o blant felly mae fy nyweddi yn fy nghefnogi i. Byddai dim modd i fi ei wneud hebddo fe. Yn ariannol byddai dim digon gen i i fyw arno wrth wneud fy ngradd."*

### Cyfuno dysgu â'r cartref

*"3 swydd 3 plentyn a chi ...mae'n bwysig ffitio'r cwbl i mewn."*

*"Wel mae ar gyfer sicrhau hapusrwydd gartref – mae'n rhaid i chi gael y ddau."*





## Tabl 5.10: Pam mae'r ffactor mor bwysig? Cwestiwn agored i archwilio manylion

| Rhesymau dros bwysigrwydd cryf ar symbyliad i ddysgu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogaeth teulu | % | Y gallu i gyfuno dysgu â'r cartref | % | Cael amser i ymrwymo i ddysgu | % |
| Angen y teulu i'ch cefnogi chi/caniatáu i chi astudio/ angen help i ymdopi | 54 | Angen treulio amser gyda'r teulu | 27 | Angen rheoli amser yn gywir/cael amser i wneud y cwrs | 29 |
| Mae'n eich symbylu chi'n fwy | 10 | Angen y cydbwysedd cywir/eisiau cyfuno'r cwbl | 27 | Angen amser arnoch chi i allu gwneud y cwrs | 17 |
| Angen treulio amser gyda'r teulu | 10 | Byddai'n rhaid iddo gyd-fynd/ymrwymiadau eraill yr un mor bwysig â'r dysgu | 15 | Angen gallu rhoi 100% i'ch astudiaethau chi /y mwyaf rydych chi'n ei roi'r mwyaf i gyd y gwnewch chi gyflawni | 14 |
| | | | | Ymestyn gwybodaeth/ cael sgiliau/cymwysterau newydd | 11 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd (541); Siart yn dangos ymatebion wedi'u codio a grybwyllwyd 10% neu'n fwy

*"Mae gen i ferch a phartner. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig treulio llawer o amser gyda nhw er bod fy nghwrs yn bwysig hefyd."*

*"Os oes gennych chi gyfrifoldebau gartref gallwch chi ddim ymroi amser i astudio."*

*"Oherwydd bod gen i blant ac mae angen i fi allu ffitio i mewn â'u trefn nhw."*

*"Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig bod dysgu'n cael ei gyfuno â bywyd gartref. Rwy'n credu os nad yw hi'n bosibl cyfuno dysgu â bywyd gartref yna byddai'n eich digalonni."*

### Cael amser i ymrwymo i ddysgu

*"Oherwydd byddech chi ddim eisiau cymryd unrhyw beth ymlaen does dim modd i chi ei orffen ac mae'n rhaid i chi ystyried bywyd gartref. Er enghraifft fyddai hi ddim yn bosibl o gwbl i fi wneud cwrs ar hyn o bryd gan fy mod i'n feichiog."*

*"Oherwydd mae'n dda rhoi 100% i'ch astudiaethau ar gyfer terfynau amser ac arholiadau."*

*"Mae angen llawer o amser arnoch chi i wneud cwrs gyda'r Brifysgol Agored oherwydd bod llawer o astudio a darllen ac mae gen i'r amser i'w wneud."*

*"Os dydych chi ddim yn rhoi'r oriau i mewn bydd y cwrs yn mynd heibio i chi a byddwch chi ddim yn gallu cael rheolaeth ar bethau."*

### 5.4.4 Symbyliadau

O ran pwysigrwydd symbyliadau penodol:

- Dywedodd 38% o fenywod fod y gallu i gyfuno dysgu â gwaith yn bwysig iawn (9% o bwyntiau'n uwch na dynion)
- Roedd cyfuno dysgu â gwaith yn sylweddol bwysicach ar gyfer ymatebwyr yn y bandiau oed canol (19 – 34 a 35 – 54) nag ar gyfer y rheiny ar y ddau begwn (16 – 18 a dros 55)

- Roedd cyfleoedd cyflogaeth/gyrfa yn gysylltiedig â'r dysgu yn bwysicach i'r ymatebwyr iau (dim ond 8% o'r grŵp dros 55 oed a ddywedodd fod hwn yn bwysig iawn)
- Roedd datblygiad personol yn bwysicach o lawer i fenywod (dywedodd 44% pwysig iawn o gymharu â 36% o ddynion) ac i'r ymatebwyr yn y categorïau oed canol (19 – 34 a 35 – 54 mlwydd oed). Roedd yr awydd i wella'u hunain hefyd yn bwysicach i'r categori oed canol
- Roedd cael cymhwyster yn bwysicach o lawer i symbylu'r ymatebwyr iau (dywedodd 63% o'r rheiny rhwng 16 a 18 mlwydd oed fod hyn yn bwysig iawn).

### Tabl 5.11: Pwysigrwydd ffactorau i ddychwelyd i ddysgu yn ôl rhyw ac oedran

| | | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| Y gallu i gyfuno dysgu â gwaith | % | % | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 35 | 29 | 38 | 27 | 51 | 42 | 19 |
| Eithaf pwysig | 32 | 31 | 33 | 49 | 36 | 33 | 17 |
| Cyfleoedd cyflogaeth/gyrfa yn gysylltiedig â dysgu | % | % | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 30 | 29 | 30 | 48 | 43 | 30 | 8 |
| Eithaf pwysig | 29 | 25 | 32 | 34 | 34 | 37 | 12 |
| Datblygiad personol | % | % | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 41 | 36 | 44 | 27 | 61 | 49 | 27 |
| Eithaf pwysig | 45 | 48 | 43 | 60 | 34 | 39 | 52 |
| Cael cymhwyster | % | % | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 42 | 39 | 43 | 63 | 58 | 42 | 17 |
| Eithaf pwysig | 28 | 25 | 30 | 33 | 23 | 31 | 23 |
| Yr awydd i wella'u hunain | % | % | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 47 | 44 | 48 | 32 | 61 | 51 | 40 |
| Eithaf pwysig | 42 | 42 | 41 | 53 | 31 | 36 | 49 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys





## Table 5.12: Pwysigrwydd ffactorau i ddychwelyd i ddysgu yn ôl grŵp economaidd gymdeithasol

| | | Graddfa Gymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | AB | C1 | C2 | DE |
| Cyfanswm | 541 | 72 | 214 | 152 | 98 |
| Y gallu i gyfuno dysgu â gwaith | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 35 | 33 | 39 | 34 | 29 |
| Eithaf pwysig | 32 | 22 | 31 | 40 | 30 |
| Cyfleoedd cyflogaeth/gyrfa yn gysylltiedig â dysgu | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 30 | 22 | 28 | 36 | 32 |
| Eithaf pwysig | 29 | 19 | 31 | 32 | 29 |
| Datblygiad personol | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 41 | 43 | 40 | 42 | 43 |
| Eithaf pwysig | 45 | 42 | 47 | 48 | 40 |
| Cael cymhwyster | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 42 | 32 | 42 | 47 | 40 |
| Eithaf pwysig | 28 | 29 | 28 | 28 | 29 |
| Yr awydd i wella'u hunain | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 47 | 54 | 43 | 51 | 45 |
| Eithaf pwysig | 42 | 38 | 49 | 37 | 37 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys

O ran grŵp economaidd gymdeithasol:

- Mae cyfuno dysgu â gwaith yn llai o ffactor symbylu i grŵp DE
- Roedd cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa yn gysylltiedig â dysgu yn bwysicach i ymatebwyr C2DE
- Roedd grŵp AB yn llai tebygol o lawer o fod wedi dweud bod cael cymhwyster yn bwysig iawn.

Roedd pwysigrwydd cyfuno dysgu â bywyd gwaith yn dangos bod ymatebwyr eisiau i'w dysgu gael effaith ar eu cynnydd yn y gwaith. Mae ymatebwyr eisiau cael sgiliau drwy ddysgu y gallan nhw eu cymryd yn ôl i'r gwaith a'u

defnyddio yn eu swyddi. Hefyd cafwyd yr agwedd pwysau amser: roedd 16% o ymatebwyr a ddywedodd fod cyfuno dysgu â gwaith yn symbyliad pwysig iddyn nhw, wedi dweud mai'r rheswm dros hyn oedd bod eu gwaith yr un mor bwysig â'r digwyddiad dysgu ac ni ellid ei gyfaddawdu ar draul dysgu. Er bod llawer o'r ymatebwyr wedi sôn bod hunanddatblygiad a datblygiad personol yn bwysig iawn o ran eu symbylu nhw i ddysgu, pan fyddent yn cael eu holi'n fanylach roedd yn ddiddorol gweld eu bod mewn gwirionedd yn dehongli hyn fel cael effaith ar eu bywyd gwaith/eu gyrfa. Gan hynny, dywedodd un o bob pump a nododd fod datblygiad personol yn ffactor pwysig iawn o ran eu hannog nhw i ddysgu fod hyn oherwydd y byddai, yn ei dro, yn helpu cynnydd eu gyrfa. Roedd cyfran sylweddol o'r rheiny a gafodd eu hannog i ddysgu gan ffactorau'n gysylltiedig â chyflogaeth/gyrfa wedi crybwyll newid gyrfa neu gael swydd newydd (28%). Cyfeiriodd cyfran debyg at hyn o ran cynyddu eu gallu i wella yn yr hyn a wnânt ar hyn o bryd.

### Tabl 5.13: Pam mae'r ffactor mor bwysig? Cwestiwn agored i archwilio manylion

| Rhesymau dros bwysigrwydd cryf ar symbyliad i ddysgu | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y gallu i gyfuno dysgu â gwaith | % | Cyfleoedd cyflogaeth/ gyrfa yn gysylltiedig â dysgu | % | Datblygiad personol | % | Cael cymhwyster | % | Yr awydd i wella'u hunain | % |
| Yn fy ngalluogi i i allu gweithio'n well/ cynnydd gyrfa/ cael swydd well | 27 | Helpu cynnydd gyrfa/ dod yn well o ran fy ngwaith | 29 | Ymestyn gwybodaeth/ cael sgiliau/ cymwysterau newydd | 19 | I fynd nôl i'r gwaith/newid swydd neu yrfa | 27 | Ymestyn gwybodaeth/ cael sgiliau/ cymwysterau newydd | 18 |
| Byddai'n rhaid iddo gyd-fynd /ymrwymiadau eraill yr un mor bwysig â'r dysgu | 16 | I fynd nôl i'r gwaith/newid swydd neu yrfa | 28 | Helpu cynnydd gyrfa/dod yn well o ran fy ngwaith | 17 | Helpu cynnydd gyrfa/ dod yn well o ran fy ngwaith | 25 | Angen i ddatblygu fy hunan/fy noniau | 17 |
| Ymestyn gwybodaeth/ cael sgiliau/ cymwysterau newydd | 14 | Ymestyn gwybodaeth/ cael sgiliau/ cymwysterau newydd | 16 | Yn rhoi hyder i chi/ profi'ch hun | 16 | Mwy o ddewis o swyddi/ yn agor posibiliadau | 14 | Yn rhoi hyder i chi/ profi'ch hun | 17 |
| Profiad ymarferol /ymarfer pethau yn ôl yn y gwaith | 12 | | | Angen i ddatblygu fy hunan/fy noniau | 13 | Angen cael rhywbeth allan ohono/ cydnabyddiaeth am beth rwy' wedi'i wneud | 10 | Bydd yn fy helpu i i gael swydd well /gwneud cynnydd mewn gyrfa | 15 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd (541); Siart yn dangos ymatebion wedi'u codio a grybwyllwyd 10% neu'n fwy





### Cyfuno dysgu â'r gwaith

*"Wel, cyfuno â gwaith mae'n rhaid i chi ei ddysgu i gael swydd ta beth. Mae'n rhaid i chi fod yn hyderus yn eich gwaith neu byddwch chi ddim yn gallu'i wneud e."*

*"Does dim pwynt cael llawer o wybodaeth oni bai bod gennych chi brofiad ymarferol hefyd."*

*"Fel y gallaf i wneud y swydd yn well. I'm galluogi i i ddefnyddio Sage oherwydd bydd rhaid i mi ei ddefnyddio yn y dyfodol."*

### Cyfleoedd yn gysylltiedig â chyflogaeth/gyrfa

*"Y mwy o astudio rydych chi'n ei wneud a mwy rydych chi'n rhoi i mewn iddo, y mwy o gyfle y cewch chi i gael swydd gyda chymwysterau gwell."*

*"Mae'n debyg eich bod chi angen y profiad y tu cefn i chi pan rydych chi'n dechrau swydd."*

*"Gwella'ch hunan a chodi safonau yn y gweithle."*

### Datblygiad personol

*"Cyflawniad, i ddangos mod i wedi cyflawni rhywbeth rhoddais i fy mryd ar ei wneud."*

*"I wella fy hun yn y bôn, i roi mwy o hyder i mi oherwydd doedd gen i ddim cyn hynny. Fe wnes i gwrdd â phobl wahanol ac i gael hwyl a dweud y gwir. Dyna rywbeth roeddwn i eisiau rhoi cynnig arno i weld os oeddwn i'n gallu'i wneud ac fe wnes i synnu fy hun."*

### Ennill cymhwyster

*"Mae angen cymwysterau arnoch chi cyn cewch chi'ch derbyn i swydd."*

*"Does dim pwynt gwneud y cwrs os na chewch chi'r cymhwyster."*

*"Oherwydd rydych chi wedi gweithio'n galed ac mae'n dangos eich bod chi wedi cyflawni rhywbeth. I symud eich gyrfa yn ei blaen, gallwch symud ymlaen i lefel tri. Rydych chi'n cael eich bodloni, galla' i fynd ymhellach."*

*"Oherwydd bod gennych chi rywbeth i ategu'ch dysgu i brofi'ch bod chi wedi bod ar y cwrs ac wedi pasio'r cwrs."*

*"Oherwydd rydych chi'n ennill cymwysterau, felly mae'n haws eich cyflogi chi. Rwy'n rhoi'r sgiliau i fi'n hunan i ddod yn aromatherapydd."*

### Gwella'ch hun

*"Gallwch chi ddim jyst segura wedi i chi ymddeol. Mae angen symbyliad arnoch i gadw'r meddwl yn fyw ac i gael mwynhad / wedi mwynhau'r cwmni a'r cyfeillgarwch."*

*"Yn codi fy hyder – meddwl chwilfrydig."*

*"Oherwydd rydw i am wneud ac rwy'n gallu a dywedodd fy ŵyr, os oes gennych chi ymennydd yna pam na wnewch chi mo'i ddefnyddio fe, felly dyna a wnes i."*

*"Roeddwn i eisiau dechrau fy musnes fy hun felly roedd arnaf i angen gwybod sut roedd cyfrifiaduron yn gweithio/i helpu'r plant."*

*"Teimlais fy mod i eisiau dysgu mwy o sgiliau cyfrifiadurol ar gyfer fy ngwaith a'm bodlonrwydd fy hun."*

*"Mae'n rhaid i chi sicrhau'ch bod chi'n werthadwy yn y gweithle, i fod yn hyblyg, ac yn gallu ymaddasu ac ymateb i heriau newydd."*

### 5.4.5 Logisteg, adnoddau a chostau

Ychydig iawn o amrywiaeth a ddangosodd pwysigrwydd mynediad at dechnoleg, a'i hansawdd, o ran ei raddio ar draws is-grwpiau. Mae'n bosibl mae'r unig bwynt i'w grybwyll yw bod y materion hyn ychydig yn llai pwysig i'r ymatebwyr dros 55 oed:

- Dywedodd 26% o'r grŵp dros 55 fod mynediad i dechnoleg yn bwysig iawn o'u cymharu â 33% o'r rheiny rhwng 35 a 54 mlwydd oed a 31% yn gyffredinol
- Dywedodd 26% o'r grŵp dros 55 fod ansawdd y dechnoleg yn bwysig iawn o'u cymharu â 36% o'r rheiny rhwng 16 a 18 mlwydd oed a 31% yn gyffredinol.

Roedd costau, fodd bynnag, yn bwysicach o lawer i fenywod (dywedodd 30% fod yr agwedd hon yn bwysig iawn wrth eu symbylu i ddysgu yn wahanol i 17% o ddynion) a hefyd i'r ymatebwyr yn y categorïau oed canol (33% o'r rheiny rhwng 35 a 54 mlwydd oed o'u cymharu â 16% o'r ymatebwyr dros 55 oed a 15% o'r rheiny rhwng 16 a 18 mlwydd oed).

Er bod costau'n debycach o gael eu graddio'n bwysig iawn gan ymatebwyr o grŵp economaidd gymdeithasol DE na'r rheiny o grŵp economaidd gymdeithasol AB, (29% o'u cymharu â 22%), ni chafwyd darganfyddiadau arwyddocaol ar unrhyw ffactorau eraill yn y categori hwn.

Cafodd pwysigrwydd technoleg ei ategu gan gred mewn cadw i fyny â'r oes a chadw i fyny â newidiadau. Roedd ansawdd technoleg yn cael ei gyrru gan yr angen i uchafu dysgu a sgiliau newydd. Fel y gellid tybio, roedd pwysigrwydd costau'n deillio o'r ffaith bod modd rhai ymatebwyr yn gyfyngedig ac i rai pobl, cyllideb a chostau oedd y ffactorau holl bwysig.

### Mynediad i dechnoleg:

*"Wnewch chi ddim byd heb gyfrifiadur. Mae llawer o wybodaeth ar y We, rhan o fywyd bob dydd."*

*"Mae angen gwneud llawer o ymchwil. Mae angen i mi ddefnyddio technoleg."*

*"Mae angen cyfrifiadur arnaf i ddysgu."*

*"Cael mynd ar y We ac oherwydd mae'n rhaid i chi wneud eich holl aseiniadau ar Word/dyma fel y mae hi."*

*"Rwy'n ysgrifennu fy nghwestiynau i fyny ar y cyfrifiadur ac mae'n rhaid i mi wneud ymchwil gan ddefnyddio'r We. Rydyn ni'n defnyddio llawer o dechnoleg i wneud y ddarlith ac mae'r darlithydd yn ei defnyddio hefyd. Hefyd mae gennym y gallu i anfon ein gwaith at y darlithydd drwy e-bost/cael mynediad i fwy o nodiadau drwy wefan y coleg."*

### Ansawdd y dechnoleg

*"Oherwydd i gyfoethogi'r profiad dysgu, mae'n eich galluogi chi i gyrraedd lefel uwch o sgil."*

*"Achos wedyn os rydw i'n gwybod ei fod o ansawdd da, bydd yn fy helpu i."*

*"Mae'n haws dysgu pan fo'r dechnoleg yn well. Mae'n bwysig dysgu sut i ddefnyddio technoleg fel bod modd i chi ei defnyddio yn y gweithle."*

## Tabl 5.14: Pwysigrwydd costiau i ddychwelyd i ddysgu yn ôl rhyw ac oedran

| | | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| Costau (ffioedd/deunyddiau/teithio) | % | % | % | % | % | % | % |
| Pwysig iawn | 26 | 17 | 30 | 15 | 34 | 33 | 16 |
| Eithaf pwysig | 34 | 34 | 34 | 37 | 30 | 33 | 35 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Nid yw ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys





## Tabl 5.15: Pam mae'r ffactor mor bwysig? Cwestiwn agored i archwilio manylion

| Rhesymau dros bwysigrwydd cryf ar symbyliad i ddysgu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad i dechnoleg | % | Ansawdd y dechnoleg | % | Costau (ffioedd/ deunyddiau/ teithio) | % |
| Ei angen ar gyfer fy nghwrs/yn helpu fy nysgu | 23 | Angen cadw i fyny â newidiadau mewn technoleg | 28 | Rhaid gallu ei fforddio/ y cwbl yn ddibynnol ar gost | 45 |
| Rhaid cadw i fyny â'r oes | 17 | Rhaid cadw i fyny â'r oes | 15 | Modd cyfyngedig/ cyllideb fechan | 24 |
| Technoleg yn rhedeg llawer o bethau heddiw/ popeth yn gyfrifiadurol | 14 | Angen deunyddiau da arnoch i fanteisio i'r eithaf ar ddysgu | 15 | | |
| Ei angen ar gyfer fy ngwaith/i wneud fy ngwaith | 11 | Ymestyn gwybodaeth/ cael sgiliau/cymwysterau newydd | 15 | | |
| Ymestyn gwybodaeth/ cael sgiliau/cymwysterau newydd | 11 | | | | |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd (541); Siart yn dangos ymatebion wedi'u codio a grybwyllwyd gan 10% neu fwy

### Costau


*"Fel pensiynwr mae fy incwm i'n gyfyngedig felly oherwydd hyn mae'n rhaid i mi ystyried yr holl gostau ac nid dim ond ffioedd y cwrs. Er mae'n help cael ffioedd cyrsiau gyda chymhorthdal drwy fod yn bensiynwr."*

*"Wel, oherwydd nad oes cefnogaeth ariannol eu cwmni gan bawb a does dim incwm uchel gan bawb a dydyn nhw ddim yn cael y cyfle."*

## 5.5 Y tebygolrwydd o ddysgu eto o fewn y tair blynedd nesaf

Gofynnwyd i bob ymatebydd pa mor debygol y byddent o ymgymryd â mwy o ddysgu o fewn y tair blynedd nesaf. Dywedodd tua 2 o bob 5 eu bod yn debygol iawn a dywedodd traean arall (32%) y byddent yn eithaf tebygol.

### Siart 5.3: Y tebygolrwydd o ddysgu eto o fewn y tair blynedd nesaf




Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd (541)

## Tabl 5.16: Y tebygolrwydd o ddysgu eto o fewn y tair blynedd nesaf yn ôl rhyw ac oedran

| | | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 541 | 190 | 351 | 91 | 99 | 206 | 145 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Tebygol iawn | 41 | 43 | 40 | 38 | 55 | 36 | 40 |
| Eithaf tebygol | 32 | 25 | 35 | 29 | 27 | 38 | 28 |
| Ddim yn debygol iawn | 15 | 21 | 11 | 18 | 10 | 16 | 14 |
| Ddim yn debygol o gwbl | 10 | 9 | 11 | 14 | 6 | 8 | 13 |
| Ddim yn gwybod | 5 | 1 | 4 | 1 | 2 | 2 | 5 |

Ffynhonnell: arolwg 2005

## Tabl 5.17: Y tebygolrwydd o ddysgu eto o fewn y tair blynedd nesaf yn ôl grŵp economaidd gymdeithasol

| | | Graddfa Gymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pob ymatebydd | Cyfanswm | AB | C1 | C2 | DE |
| Cyfanswm | 541 | 72 | 214 | 152 | 98 |
| | % | % | % | % | % |
| Tebygol iawn | 41 | 49 | 41 | 38 | 41 |
| Eithaf tebygol | 32 | 22 | 36 | 30 | 32 |
| Ddim yn debygol iawn | 15 | 22 | 13 | 13 | 16 |
| Ddim yn debygol o gwbl | 10 | 6 | 9 | 14 | 8 |
| Ddim yn gwybod | 5 | 1 | 1 | 5 | 3 |

Ffynhonnell: arolwg 2005





Wrth fwrw golwg ar y tebygolrwydd o ddysgu eto o fewn y tair blynedd nesaf yn ôl rhyw ac oedran:

- Roedd menywod yn debycach na dynion o fod yn debygol iawn neu'n eithaf tebygol o ddysgu (75% cyfunol o gymharu â 68%)
- Y grŵp 19-34 oed oedd debycaf o ddysgu eto (dywedodd 55% eu bod yn debygol iawn, mae hwn yn uwch o lawer nag unrhyw fand oedran arall)
- Roedd ymatebwyr yng ngrŵp economaidd gymdeithasol AB yn debycach na grwpiau eraill o ymgymryd â dysgu o fewn y tair blynedd nesaf (dywedodd 49% eu bod yn debygol iawn)

Yn 2003, dywedodd 64% o'r 541 o ymatebwyr eu bod yn debygol iawn o ddychwelyd i ddysgu ac roedd 27% yn eithaf tebygol. Yn gyfan gwbl, roedd 90% o ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch dychwelyd i ddysgu. Yn amlwg, gydag amser maen nhw'n teimlo'n llai cryf am hyn, oherwydd yn arolwg 2005 dim ond 72% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch dychwelyd i ddysgu yn y dyfodol.

O'r ymatebwyr hynny sy'n dymuno ymgymryd â mwy o ddysgu, crybwyllodd y gyfran uchaf TGCh (19%), gofal iechyd, meddygol neu gymdeithasol (16%) neu gelf/crefft a'r cyfryngau (10%). Er y cafodd y cyrsiau TGCh eu crybwyll gan raniad bras o ddynion a menywod, roedd nifer fwy o lawer o fenywod wedi crybwyll y cyrsiau'n gysylltiedig â gofal (23% o gymharu â 5%).

Cafodd cyrsiau celf/crefft a'r cyfryngau eu crybwyll gan nifer fwy o lawer o ymatebwyr o'r bandiau ieuaf a hynaf o ran oed (14% o'r rheiny rhwng 16 a 18 oed ac 21% o'r rheiny dros 55). Roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn y bandiau oed canol o 19 – 34 a 35 – 54 wedi crybwyll gofal iechyd, meddygol neu gymdeithasol (28% o'r rheiny rhwng 19 a 34 mlwydd oed a 22% o'r rheiny rhwng 35 a 54 mlwydd oed). Apeliodd TGCh at y ddau gategori oedran hynaf (21% o'r rheiny rhwng 35 a 54 mlwydd oed ac 28% o'r rheiny dros 55).

## 5.6 Crynodeb

Dychwelodd ychydig dros draean o'r ymatebwyr (36%) i ddysgu yn y cyfnod ers gadael y cwrs roeddent yn ei ddilyn yn 2003. Roedd y mwyafrif o'r rhain wedi dilyn un cwrs yn unig.

Mae cydberthynas clir rhwng bodlonrwydd â'r digwyddiad dysgu a dychwelyd i ddysgu. Mae cydberthynas hefyd rhwng cwblhau'r cwrs blaenorol a dychwelyd i ddysgu.

Roedd llawer o ymatebwyr arolwg 2005 yn ymgymryd â chyrsiau lefel gradd a CGCau. O ran pynciau, y meysydd mwyaf cyffredin oedd TGCh, gofal iechyd/cymdeithasol a gofal plant a'r celfyddydau/y cyfryngau a drama.

Diddordeb yn y pwnc oedd yn o'r prif sbardunau (35%) ac roedd ennill sgiliau hefyd yn allweddol (roedd 28% eisiau ennill sgiliau ar gyfer eu swydd gyfredol ac 21% eisiau ennill sgiliau ar gyfer swydd y byddent yn dymuno'i gwneud yn y dyfodol).

Mae'r ffactorau y rhoddwyd graddfa bwysig iawn iddynt amlaf fel a ganlyn:

- Cefnogaeth gan athro/tiwtor (50%)
- Yr awydd i wella'u hunain (47%)
- Ennill cymhwyster (42%)
- Datblygiad personol (41%).

Pan fu ymatebwyr yn sôn am gefnogaeth athro/tiwtor roedd hyn yn bennaf yn ymwneud ag anogaeth.

Roedd technoleg hefyd yn cael ei hystyried yn bwysig ac roedd hyn yn bennaf mewn perthynas â'r ffaith ei bod bellach yn sgil bywyd angenrheidiol.

O ymatebwyr arolwg 2005, roedd 41% yn debygol iawn o ddysgu eto o fewn y tair blynedd nesaf a 32% yn eithaf tebygol. Mae hyn yn is o lawer nag yn 2003, pan ddywedodd 64% eu bod yn debygol iawn a dywedodd 27% eu bod yn eithaf tebygol.

# 6.0 DIGWYDDIADAU CYFLOGAETH ERS CWRS 2003

## 6.1 Cyflwyniad

This section explores employment events since the 2003 survey. The 2005 survey asked the respondent some detailed questions about their current employment situation and their satisfaction with their current job. It then went on to explore what other employment events, if any, the respondent had had since leaving their course.

## 6.2 Sefyllfa gyflogaeth

### 6.2.1 Sefyllfa gyflogaeth bresennol

Gofynnwyd i bob ymatebydd am eu sefyllfa gyflogaeth bresennol. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (62%) mewn rhyw fath o gyflogaeth adeg arolwg 2005. Ychydig dros un o bob tri (35%) oedd mewn cyflogaeth amser llawn, bron un o bob pump (19%) mewn cyflogaeth ran-amser ac roedd 9% yn hunangyflogedig (yn amser llawn neu'n rhan-amser).

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran a rhyw'r ymatebydd a'u sefyllfa gyflogaeth bresennol:

- Roedd dynion yn debycach na menywod o fod mewn cyflogaeth amser llawn (39% o'u cymharu â 33%). Ar y llaw arall roedd menywod yn debycach o fod mewn cyflogaeth ran-amser (24% o'u cymharu â 10% o ddynion)
- Roedd y rhai a oedd wedi ymddeol yn llawer tebycach o fod yn ddynion (23% o'u cymharu ag 16%)
- Roedd pobl dan 18 oed yn sylweddol tebycach nag unrhyw grŵp oedran arall o fod yn ddi-waith ac ar gael i weithio (20% o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 6%). Roedd bron i chwarter (24%) o'r rheiny o dan 18 oed mewn addysg amser llawn.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nad oeddent yn gweithio adeg arolwg 2005 a oeddent wedi gweithio erioed ers y cwrs. Roedd ychydig dros chwarter (27%) wedi gweithio ar ryw adeg.

Mae cyfuniad o'r data o'r cwestiynau hyn yn rhoi'r darlun cyffredinol a ganlyn:

- 62% oedd mewn cyflogaeth adeg arolwg 2005
- 10% oedd wedi bod mewn cyflogaeth ar ryw adeg ond nid adeg arolwg 2005
- 28% oedd heb fod mewn cyflogaeth o gwbl ers y cwrs roeddent yn ei fynychu yn 2003.

### 6.2.2 Ymatebwyr a oedd heb weithio ers mynychu'r cwrs yn 2003

O'r 154 o ymatebwyr a oedd heb weithio ers eu cwrs yn 2003, nid oedd y mwyafrif ohonynt (77%) ar gael i weithio, naill ai am eu bod wedi ymddeol neu'n edrych ar ôl y cartref/ methu gweithio. Mae hyn yn gadael 23% sydd â'r potensial i weithio.

### 6.2.3 Ymatebwyr sydd wedi gweithio ond nad ydynt yn gwneud ar hyn o bryd

Fel y nodwyd uchod, roedd 10% o'r holl ymatebwyr (n=56, rhy fach i'w ddadansoddi ar wahân) wedi gweithio ar ryw adeg yn dilyn eu dysgu, ond heb fod mewn cyflogaeth ar hyn o bryd.

## 6.3 Amser a dreuliwyd mewn cyflogaeth ers gadael y cwrs yn 2003


Cafodd data ei agregu i ddarganfod faint o fisoedd roedd ymatebwyr wedi bod mewn cyflogaeth, ar ôl i'r cwrs roeddent yn ei ddilyn yn 2003 ddod i ben. Am nad oedd llawer o ymatebwyr yn gwybod dyddiad gadael eu cwrs neu'r dyddiad y gwnaethant ddechrau neu orffen eu swyddi, dim ond data ar gyfer 271 o ymatebwyr sydd gennym. O'r 271 hyn o ymatebwyr, roedd 63% wedi eu cyflogi'n barhaus rhwng cwblhau'r cwrs a chael eu cyf-weld yn 2005. Dengys yr arolwg fod 59% o ddysgwyr mewn cyflogaeth cyn iddynt ddechrau'r cwrs yn 2003.

Roedd un o bob deg wedi eu cyflogi rhwng 80 a 99% o'r amser ers cwblhau eu cwrs. Roedd





## Siart 6.1: sefyllfa gyflogaeth bresennol




Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd (541); Ni ddangosir Ddim yn gwybod.

8% arall wedi eu cyflogi rhwng 60 a 79% o'r amser a oedd wedi mynd heibio ers cwblhau eu cwrs. Roedd yr 16% arall wedi eu cyflogi llai na 50% o'r amser ers cwblhau eu cwrs.


## 6.4 Manylion cyflogaeth bresennol

### 6.4.1 Cyflogaeth bresennol: dyddiad dechrau

Holwyd pob ymatebydd a oedd mewn cyflogaeth pryd ddechreuodd eu swydd bresennol.

Mae'n ddiddorol nodi bod mwyafrif o ymatebwyr yn eu cyflogaeth bresennol cyn iddynt ddechrau eu dysgu yn 2003. Rhoddodd bron tri o bob pump (59%) o ymatebwyr ddyddiad a ragflaenodd 2003.

### Siart 6.2: Blwyddyn y dechreuodd y gyflogaeth bresennol




Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd a oedd mewn cyflogaeth (336)

O ran demograffeg bersonol, roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol yn y data wrth fynd ar drywydd hyd cyflogaeth:

- Roedd menywod yn llawer tebycach o fod wedi eu cyflogi'n hirach gan eu cyflogwr presennol (dywedodd 55% iddynt ddechrau eu cyflogaeth yn 2001 neu cyn hynny o'u cymharu â 33% o ddynion)
- Roedd yr ymatebwyr hŷn yn debycach o sôn am gael eu cyflogi am hirach (dechreuodd 71% o'r grŵp 55 ac yn hŷn eu cyflogaeth yn 2001 neu cyn hynny o'u cymharu â 59% o'r grŵp oedran 35-54)
- Roedd y rheiny a oedd yn gweithio ym meysydd arlwyo/ gwerthu a chyfrifon/ cyllid/ gweinyddu/ clercyddol yn llawer tebycach na'r rheiny a oedd yn gweithio mewn galwedigaethau eraill o fod wedi dechrau eu swydd bresennol yn y 2 flynedd diwethaf: 45% a 30% yn y drefn honno oedd wedi gwneud, o'u cymharu ag 21% neu lai mewn grwpiau eraill
- Roedd y rheiny a oedd yn hunangyflogedig yn debycach nag ymatebwyr eraill a oedd yn gweithio o fod wedi dechrau eu swydd yn 2000 neu cyn hynny

### 6.4.2 Cyflogaeth bresennol: Teitl y swydd

Gofynnwyd i ymatebwyr roi teitl eu swydd a chafodd eu hymatebion llafar eu codio gan NOP. Y mathau mwyaf cyffredin o alwedigaeth oedd Gofalwr/ gwarchodwr plant/ gweithiwr chwarae/ gweithiwr iechyd (20%) a Rolau proffesiynol/ rheoli (18%).


Mae demograffeg bersonol yn dangos:

- Bod dynion yn debycach na menywod o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau Proffesiynol/ rheoli. I'r gwrthwyneb, roedd menywod yn debycach o enwi galwedigaethau gweinyddol/ clercyddol/ ysgrifenyddol a gofalwr/ gwarchodwr plant/ gweithiwr chwarae/ gweithiwr iechyd
- Roedd y rheiny 16-18 oed yn debycach na'u cymheiriaid hŷn o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid/ gwerthu
- Roedd ymatebwyr hŷn 55+ oed yn debycach o ddal rolau Proffesiynol/ rheoli
- Roedd ymatebwyr AB ac C1 yn debycach o ddal rolau proffesiynol/ rheoli. I'r gwrthwyneb, roedd y rheiny yn y graddfeydd C2, DE yn debycach o enwi Gweithredwyr lled-sgiliedig fel eu math o alwedigaeth na'r rheiny yng ngraddfeydd AB, C1.

### 6.4.3 Cyflogaeth bresennol: Math o gontract

Holwyd pob ymatebydd cyflogedig am y math o gontract a oedd ganddynt â'u cyflogwr. Dwedodd mwyafrif llethol (75%) mai contract parhaol oedd e (blwyddyn neu ragor). Cyflogwyd un o bob deg ar gontract dros dro neu achlysurol (dan gontract am lai na blwyddyn). O'r ymatebwyr eraill, roedd y mwyafrif (13%) yn hunangyflogedig.

**Siart 6.3: Math o gontract a ddelir**




Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd mewn cyflogaeth (336)





## Tabl 6.1: Math o alwedigaeth yn ôl oedran a rhyw

| | | Rhyw | | Oedran (yn 2003) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Heb ei phwysoli (pawb mewn cyflogaeth) | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 336 | 114 | 222 | *49 | 70 | 175 | *42 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Proffesiynol/rheoli | 18 | 25 | 14 | 8 | 13 | 19 | 31 |
| Cyfrifon/cyllid | 4 | 2 | 5 | 2 | 6 | 3 | 2 |
| Gweinyddol/clercyddol/ysgrifenyddol | 13 | 6 | 17 | 8 | 11 | 15 | 14 |
| Gofalwr/gwarchodwr plant/gweithiwr chwarae/ gweithiwr gofal iechyd | 20 | 2 | 29 | 8 | 21 | 23 | 14 |
| Arlwyo | 3 | 3 | 4 | 6 | 6 | 2 | 0 |
| Cysylltiedig â dysgu | 9 | 5 | 11 | 0 | 7 | 13 | 7 |
| Gweithredwyr lled-sgiliedig | 12 | 25 | 5 | 18 | 13 | 9 | 17 |
| Gwasanaeth cwsmeriaid/ gwerthu | 7 | 8 | 7 | 24 | 4 | 5 | 2 |
| Ansgiliedig | 3 | 9 | 0 | 4 | 6 | 1 | 5 |
| Arall | 12 | 17 | 9 | 20 | 13 | 10 | 7 |

Ffynhonnell: arolwg 2005
*Mae maint y sylfaen yn llai na 50; dylai ffigurau gael eu trin gyda gofal.

Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw. Roedd yr ymatebwyr hŷn yn llawer tebycach o fod yn hunangyflogedig na'r ymatebwyr iau. O ran grŵp cymdeithasol economaidd, yr ymatebwyr a ddosbarthwyd fel AB neu C2 oedd tebycaf o fod yn hunangyflogedig.

Yn unol â'r disgwyl, roedd y rheiny a oedd yn gweithio amser llawn yn debycach nag ymatebwyr eraill o ddal contract parhaol (89% yn erbyn 78% o weithwyr rhan-amser). Y rheiny yn y galwedigaethau Gweithredwr lled sgiliedig/ ansgiliedig oedd debycaf o fod yn hunangyflogedig (30% yn erbyn 19% neu lai mewn grwpiau galwedigaethol eraill).

### 6.4.5 Cyflogaeth bresennol: Bodlonrwydd â'r swydd/agwedd at y swydd


Gofynnwyd i ymatebwyr pa mor fodlon oeddent ar eu cyflogaeth. Roedd bron chwarter (23%) o'r ymatebwyr a oedd mewn cyflogaeth adeg eu holi yn hynod fodlon ar eu swydd o ystyried popeth. Roedd 35% arall yn fodlon iawn a 32% yn eithaf bodlon.

## Tabl 6.2: Math o gontract yn ôl oedran a math o alwedigaeth

| | | Oedran (yn 2003) | | | | Math o alwedigaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Heb ei phwysoli (pawb mewn cyflogaeth) | Cyfanswm | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ | Proff/ rheoli | Cyfrifon/ cyllid/ gwein/ clerc | Gofalu/ dysgu | Arlwyo/ gwerthu | Gweith lled/an-sgiliedig |
| Cyfanswm | 336 | 49 | 70 | 175 | 42 | 59 | 56 | 97 | 35 | 50 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Parhaol (mwynha blwyddyn) | 75 | 84 | 74 | 76 | 62 | 75 | 88 | 72 | 77 | 68 |
| Dros dro/ achlysurol (llai na blwyddyn) | 10 | 8 | 13 | 10 | 5 | 5 | 7 | 14 | 17 | 0 |
| Swydd dros dro drwy asiantaeth | 1 | 4 | 1 | 0 | 2 | 0 | 2 | 1 | 3 | 2 |
| Hunangyflogedig | 13 | 2 | 10 | 14 | 31 | 19 | 4 | 12 | 0 | 30 |
| Arall | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; Ni ddangosir Ddim yn gwybod.
*Mae maint y sylfaen yn llai na 50; dylai ffigurau gael eu trin gyda gofal.

## Siart 6.4: Bodlonrwydd â chyflogaeth




Ffynhonnell: arolwg 2005; Sylfaen: Pob ymatebydd mewn cyflogaeth (336)





O ran demograffeg bersonol:

- At ei gilydd, roedd benywod yn fwy bodlon ar eu swydd bresennol (dywedodd 60% eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn o'u cymharu â 53% o ddynion)
- Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy bodlon (dywedodd 65% o'r grŵp oedran 55+ eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn o'u cymharu â 51% o'r rheiny dan 18 oed)
- Y grŵp cymdeithasol economaidd DE oedd lleiaf tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu swydd
- Y rheiny a gyflogid mewn galwedigaethau arlwyo/ gwerthu neu led/an-sgiliedig oedd lleiaf tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn yn eu cyflogaeth (37% a 44% yn y drefn honno, o'u cymharu â 63% neu ragor mewn mathau eraill o alwedigaeth).

Yn ogystal, roedd cyfran uwch o'r rheiny a gwblhaodd eu cwrs yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu cyflogaeth bresennol (60% o'u cymharu â 46%). Mae'n ymddangos bod bodlonrwydd â'u dysgu yn 2005 yn cyd-fynd â bodlonrwydd â chyflogaeth bresennol:

- 69% o'r ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon ar eu dysgu yn gyffredinol a oedd yn hynod fodlon/ bodlon iawn ar eu cyflogaeth bresennol
- 60% o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon iawn ar eu dysgu yn gyffredinol a oedd yn hynod fodlon/ bodlon iawn ar eu cyflogaeth bresennol
- 43% o'r ymatebwyr a oedd yn eithaf bodlon ar eu dysgu yn gyffredinol a oedd yn hynod fodlon/ bodlon iawn ar eu cyflogaeth bresennol.

Hefyd rhoddwyd cyfres o ddatganiadau i ymatebwyr am eu gwaith a gofynnwyd iddynt i ba raddau roeddent yn cytuno â phob un.

## Tabl 6.3: Agweddau at gyflogaeth yn ôl rhyw ac oedran (% yn cytuno'n gryf)

| | | Rhyw | | Oedran | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Pawb mewn cyflogaeth | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | 16 – 18 | 19 – 34 | 35 – 54 | 55+ |
| Cyfanswm | 336 | 114 | 222 | 49 | 70 | 175 | 42 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Rwy'n mwynhau'r heriau rwy'n eu hwynebu yn fy swydd | 61 | 55 | 64 | 49 | 57 | 64 | 71 |
| Mae'r math hwn o waith yn gam ar y ffordd i ddod o hyd i rywbeth mwy addas i mi | 26 | 25 | 26 | 49 | 31 | 21 | 10 |
| Math newydd o rôl i mi yw hwn | 16 | 18 | 15 | 29 | 14 | 15 | 12 |
| Mae'r lefel gyfrifoldeb yn uwch nag rwyf wedi arfer â hi | 18 | 22 | 17 | 29 | 20 | 15 | 19 |
| Mae'r swydd hon yn ddechrau gyrfa i mi yn y math hwn o waith | 29 | 34 | 26 | 49 | 36 | 23 | 19 |
| Rwy'n fwy bodlon ymgymryd â thasgau newydd nag oeddwn i 2 flynedd yn ôl | 60 | 48 | 66 | 80 | 61 | 58 | 45 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; caniatawyd atebion lluosog

## Tabl 6.4: Agweddau at gyflogaeth yn ôl gradd gymdeithasol (%yn cytuno'n gryf)

| Sylfaen: Pawb mewn cyflogaeth | Cyfanswm | Gradd Gymdeithasol AB | C1 | C2 | DE |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 336 | 41 | 143 | 105 | 46 |
| | % | % | % | % | % |
| Rwy'n mwynhau'r heriau rwy'n eu hwynebu yn fy swydd | 61 | 66 | 61 | 66 | 48 |
| Mae'r math hwn o waith yn gam ar y ffordd i ddod o hyd i rywbeth mwy addas i mi | 26 | 24 | 24 | 28 | 30 |
| Math newydd o rôl i mi yw hwn | 16 | 12 | 17 | 17 | 15 |
| Mae'r lefel gyfrifoldeb yn uwch nag rwyf wedi arfer â hi | 18 | 15 | 16 | 23 | 20 |
| Mae'r swydd hon yn ddechrau gyrfa i mi yn y math hwn o waith | 29 | 24 | 29 | 32 | 24 |
| Rwy'n fwy bodlon ymgymryd â thasgau newydd nag oeddwn i 2 flynedd yn ôl | 60 | 46 | 58 | 68 | 63 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; caniatawyd atebion lluosog.

Roedd ymatebwyr yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol am eu swydd: roedd y mwyafrif o'r rheiny a oedd mewn gwaith yn cytuno eu bod yn 'mwynhau'r heriau rwy'n eu hwynebu yn fy swydd', gydag ychydig iawn o amrywiaeth yn ôl rhyw, oedran na graddfa gymdeithasol. Serch hynny, roedd y rheiny a gyflogid mewn galwedigaethau arlwyo/ gwerthu yn llai tebygol nag ymatebwyr eraill o gytuno'n gryf (34% yn erbyn 58% neu ragor mewn categorïau galwedigaeth eraill).

Cytunodd rhyw chwech o bob deg ymatebydd (60%) â'r datganiad 'Rwy'n fwy bodlon ymgymryd â thasgau newydd nag oeddwn i 2 flynedd yn ôl', ac roedd benywod yn debycach na dynion o gytuno'n gryf bod hyn yn wir (66% yn erbyn 48%).

Roedd yn nodedig bod cyfrannau llai o ymatebwyr yn cytuno â'r datganiadau eraill mewn perthynas â gwaith. Dyma rai o'r pwyntiau arwyddocaol i'w nodi:

- Nid oedd yn syndod bod y rheiny a oedd yn 16-18 oed adeg arolwg 2005 yn llawer tebycach na'u cymheiriaid hŷn o gytuno'n gryf â'r datganiadau: 'Mae'r math hwn o waith yn gam ar y ffordd i ddod o hyd i rywbeth mwy addas i mi', 'Math newydd o rôl i mi yw hwn', 'Mae'r lefel gyfrifoldeb yn uwch nag rwyf wedi arfer â hi'





## Tabl 6.5: Agweddau at gyflogaeth yn ôl math o alwedigaeth (% yn cytuno'n gryf)

| | | Math o alwedigaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen: Heb ei phwysoli (pawb mewn cyflogaeth) | Cyfanswm | Proff/ rheoli | Cyfrifon/ cyllid/gwein/ clerc | Gofalu/ dysgu | Arlwyo/ gwerthu | Gweith lled/an-sgiliedig |
| Cyfanswm | 336 | 59 | 56 | 97 | *35 | 50 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Rwy'n mwynhau'r heriau rwy'n eu hwynebu yn fy swydd | 61 | 66 | 59 | 71 | 34 | 58 |
| Mae'r math hwn o waith yn gam ar y ffordd i ddod o hyd i rywbeth mwy addas i mi | 26 | 14 | 21 | 29 | 57 | 18 |
| Math newydd o rôl i mi yw hwn | 16 | 15 | 18 | 15 | 11 | 12 |
| Mae'r lefel gyfrifoldeb yn uwch nag rwyf wedi arfer â hi | 18 | 19 | 16 | 19 | 11 | 28 |
| Mae'r swydd hon yn ddechrau gyrfa i mi yn y math hwn o waith | 29 | 24 | 30 | 34 | 9 | 34 |
| Rwy'n fwy bodlon ymgymryd â thasgau newydd nag oeddwn i 2 flynedd yn ôl | 60 | 49 | 57 | 71 | 60 | 56 |

Ffynhonnell: arolwg 2005; caniatawyd atebion lluosog.
*Mae maint y sylfaen yn llai na 50; dylai ffigurau gael eu trin gyda gofal.

- Yn ogystal, roedd y rheiny 19–34 oed adeg arolwg 2005 yn debycach nag ymatebwyr hŷn o gytuno 'Mae'r swydd hon yn ddechrau gyrfa i mi yn y math hwn o waith'
- Roedd ymatebwyr a oedd yn gweithio ym meysydd Arlwyo/ gwerthu yn llawer tebycach nag eraill o gytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae'r math hwn o waith yn gam ar y ffordd i ddod o hyd i rywbeth mwy addas i mi' ond yn lleiaf tebygol o gytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae'r swydd hon yn ddechrau gyrfa i mi yn y math hwn o waith'. Mae hyn yn awgrymu bod llawer yn ystyried eu gwaith yn fodd o gyflawni dymuniad yn hytrach nag yn ddewis gyrfa terfynol. Mae'n werth cofio hefyd bod y grŵp galwedigaethol hwn yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r rheiny 16-18 oed.

Yn ôl pob golwg roedd agweddau cadarnhaol at waith yn gysylltiedig â lefelau bodlonrwydd yn 2005. Er enghraifft, o ran y datganiad 'Rwy'n mwynhau'r heriau rwy'n eu hwynebu yn fy swydd'

- 70% o'r ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon ar eu dysgu yn gyffredinol a gytunodd yn gryf â'r datganiad hwn
- 62% o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon iawn ar eu dysgu yn gyffredinol a gytunodd yn gryf â'r datganiad hwn
- 50% o'r ymatebwyr a oedd yn eithaf bodlon ar eu dysgu a gytunodd yn gryf â'r datganiad hwn.

Yn yr un modd, wrth ystyried y datganiad 'Rwy'n fwy bodlon ymgymryd â thasgau newydd nag oeddwn i 2 flynedd yn ôl', roedd lefelau cytundeb yn cyd-fynd â lefelau bodlonrwydd â dysgu.

- 66% o'r ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon ar eu dysgu yn gyffredinol a gytunodd yn gryf â'r datganiad hwn
- 57% o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon iawn ar eu dysgu yn gyffredinol a gytunodd yn gryf â'r datganiad hwn.

## 6.5 Crynodeb

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (62%) mewn cyflogaeth adeg yr arolwg dilynol. O'r rheiny nad oeddent yn gweithio, ychydig dros chwarter (27%) a oedd wedi gweithio ar ryw adeg ers yr arolwg diwethaf.

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn eu cyflogaeth bresennol cyn iddynt ddechrau dysgu yn 2003 (59%). Y mathau o alwedigaeth a enwyd amlaf oedd gofalwr/ gwarchodwr plant/ gweithiwr chwarae/ gweithiwr iechyd a galwedigaethau proffesiynol/ rheoli.

Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr (75%) wedi eu cyflogi gan gontract parhaol. Roedd un o bob deg wedi ei gyflogi ar sail dros dro/ achlysurol, tra bod 13% yn hunangyflogedig.

Roedd lefelau bodlonrwydd â chyflogaeth yn uchel: adroddodd 58% o'r rheiny a oedd mewn cyflogaeth adeg arolwg 2005 eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu rôl. Ar ben hynny, roedd cyfran uwch o'r rheiny a oedd wedi cwblhau eu cwrs dysgu yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu cyflogaeth bresennol.

Roedd cydberthyniad cadarnhaol rhwng bodlonrwydd â dysgu yn 2005 a bodlonrwydd â'u cyflogaeth bresennol.

Cytunodd y mwyafrif o'r rheiny a oedd mewn cyflogaeth â'r datganiadau canlynol: 'Rwy'n mwynhau'r heriau rwy'n eu hwynebu yn fy swydd' ac 'Rwy'n fwy bodlon ymgymryd â thasgau newydd nag oeddwn i 2 flynedd yn ôl'.

# ATODIAD 1



Enw'r Dysgwr
Cyfeiriad y Dysgwr

17.03.05

Annwyl enw cyntaf y Dysgwr

Arolwg Bodlonrwydd Dysgwyr Cenedlaethol – eich rhif cyfres yw

Yn yr hydref 2003 cymeroch chi ran mewn arolwg ffôn i gael gwybod am unrhyw ddysgu roeddech o bosibl wedi'i wneud a'ch agwedd tuag at ddysgu. Gwnaethoch chi ganiatáu i un o'n cyfwelwyr o NOP siarad â chi. Roeddem yn gweithio ar ran y Cyngor Cenedlaethol - ELWa, sef y corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am hyrwyddo, cynllunio ac ariannu addysg a dysgu i'r rheiny dros 16 oed ledled Cymru (ac eithrio Addysg Uwch). Hoffai NOP, mewn cydweithrediad ag ELWa, fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch o galon i chi am eich help gyda'r ymchwil hon.

Wrth gymryd rhan yn yr arolwg, dywedoch y gallen ni gysylltu â chi eto i helpu gydag ymchwil yn y dyfodol. Rydym yn ysgrifennu atoch chi am ein bod ni bellach yn gwneud ôl-astudiaeth ar ran ELWa. Hoffai ELWa werthuso'r hyn mae dysgwyr wedi'i wneud ar ôl eu cwrs a'r effeithiau mae wedi'u cael arnynt. Er mwyn i'r astudiaeth fod mor ddefnyddiol â phosibl, mae angen iddi gynrychioli barn pob dysgwr a chyn-ddysgwr. Mae'n bwysig felly bod cymaint o bobl â phosibl yn cymryd rhan yn yr astudiaeth, a mawr obeithiaf y byddwch chi'n un ohonyn nhw.

Hoffem gynnal cyfweliad ffôn â chi a fydd yn para am ryw 15 munud. Bydd un o'n cyfwelwyr yn eich ffonio yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf i weld a ydych chi'n fodlon cymryd rhan yn yr arolwg. Yna byddan nhw naill ai'n cynnal y cyfweliad ar yr adeg honno, neu'n trefnu amser mwy cyfleus i'ch ffonio'n ôl. Asiantaeth ymchwil annibynnol yw NOP, a hoffem bwysleisio i chi bod eich manylion cyswllt yn hollol gyfrinachol a heb gael eu pasio ymlaen i ELWa.

Caiff yr arolwg ei gynnal gan ddefnyddio Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Mae hwn yn gwarantu y bydd eich ymateb yn hollol gyfrinachol a di-enw. Ni fydd y Cyngor Cenedlaethol - ELWa na'r coleg/sefydliad lle gwnaethoch eich addysg bellach yn cael gwybod os byddwch chi'n cymryd rhan, na'ch atebion unigol i gwestiynau'r arolwg. Nid ein dymuniad yw asesu ymatebion unigol, y cyfan sydd ei angen arnom yw darlun cyffredinol o fodlonrwydd.

Hoffem gadarnhau bod gennym y manylion cyswllt cywir ar eich cyfer chi. Y rhif ffôn sydd gennym yw «Telephone_2003». Os nad dyma'ch rhif cywir, a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni drwy gysylltu â'r rhif rhadffôn 0800 6348101, gan adael eich rhif cyfres (a welir ar frig y llythyr hwn) a'ch rhif ffôn presennol.

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth. Edrychwn ni ymlaen at glywed eich barn.

Yn gywir,

Julie Talbot
Rheolwr Ymchwil
NOP Cymdeithasol a Gwleidyddol

# ATODIAD 2

## Arolwg hydredol AB 2005

Bore/prynhawn da/noswaith dda, a fyddai'n bosib i mi siarad â (Ymatebydd a enwir)

- Byddai – 1 ewch i gyflwyniad 2
- Na fyddai – 2 trefnwch amser arall
- Na fyddai – 3 ddim ar gael am waith maes
- Na fyddai – 4 gwrthod
- Arall – 5 methu parhau

## Cyflwyniad 2

Bore/prynhawn da/noswaith dda f'enw i ydy (ENW) ac rwy'n galw o NOP. Gwnaethon ni siarad â chi yn yr hydref 2003 am eich (Enw'r Cwrs AB) yn (Enw'r Coleg). Anfonon ni lythyr atoch chi'n ddiweddar am yr arolwg hwn ac erbyn hyn rydyn ni am ailgysylltu â phawb a ddywedodd ein bod ni'n cael gwneud. Yr hyn rydyn ni eisiau gwybod yw beth sydd wedi digwydd ers y cwrs er mwyn i ELWa gael olrhain effeithiau dysgu.

Mae'r arolwg yn cael ei gynnal ar ran y Cyngor Cenedlaethol, ELWa. Dylai gymryd rhyw chwarter awr yn dibynnu ar eich atebion. Nid ydym yn ceisio gwerthu unrhyw beth i chi. Dim ond cynnal arolwg ydyn ni o ddysgu yn y gorffennol a beth rydych chi wedi bod yn ei wneud ers hynny.

Gwiriwch a ydy'r ymatebydd am i'r cyfweliad gael ei gynnal yn gymraeg:

- Saesneg – 1 parhewch â'r cyfweliad
- Cymraeg – 2 trefnwch amser ar gyfer y cyfweliad

S1 Pan siaradon ni â chi ddiwethaf, roeddech chi ar (Enw'r Cwrs AB) yn (Enw'r Coleg). Ga i gadarnhau bod hynny'n gywir?

- Ydy – ewch i C1
- Nac ydy – ewch i cau

## Adran A: Cwblhau'r cwrs

DARLLENWCH Gan feddwl unwaith eto am (Enw'r Cwrs AB) yn (Enw'r Coleg)

### C1 Wnaethoch chi gwblhau'r cwrs?

YCHWANEGWCH OS OES ANGEN: Wrth gwblhau – rydyn ni'n cyfeirio at fynychu'r rhan fwyaf, neu gyfan, o'r cwrs ac aros ar y cwrs nes iddo ddod i ben

- Do – 1 ewch i C3
- Naddo – 2 ewch i C2

OS COD 2 YN C1

### C2 Pam wnaethoch chi adael eich cwrs yn gynnar?

- Wedi newid i gwrs arall – 1
- Cael swydd – 2
- Newid swyddi – 3
- Rhesymau iechyd – 4
- Ddim yn hapus gyda'r cwrs – 5
- Syrthio ar ei hôl hi a phenderfynu rhoi'r gorau – 6
- Cwrs yn rhy anodd – 7
- Problemau cyllid – 8
- Teithio'n rhy anodd – 9
- Colli diddordeb – 10
- Cael babi – 11
- Newid mewn amgylchiadau personol – 12
- Ansawdd yr addysgu'n wael – 13
- Gormod o waith – 14
- Y cwrs anghywir i mi – 15
- Diffyg cefnogaeth o'r gwaith – 16
- Rhesymau personol – 17
- Cwrs yn cael ei redeg yn wael – 18
- Anawsterau gyda gofal plant neu ymrwymiadau teuluol – 19
- Colli swydd/cael fy niswyddo/aeth y cwmni i'r wal – 20
- Dim rheswm arbennig – 21
- Arall (rhowch fanylion)
- Ddim yn gwybod





GOFYNNWCH I BAWB

**C3 A beth oedd y dyddiad pan wnaethoch chi gwblhau neu adael y cwrs?**

RHOWCH Y MIS AC YNA'R FLWYDDYN

GOFYNNWCH I BAWB

**C4 Ac a enilloch chi'ch (Enw'r cwrs AB)?**

DARLLENWCH Y RHAIN YN UCHEL A RHOWCH UN COD YN UNIG

- Do, yn gyfan gwbl – 1
- Do, yn rhannol – 2
- Naddo – 3
- Arall (rhoch fanylion) – 4
- Ddim yn gwybod – 5
- Gwrthod – 6

GOFYNNWCH I BAWB

**C5 Pan siaradon ni â chi ddiwethaf, dwedoch chi eich bod chi ar y cyfan (lefel fodlonrwydd) ar eich profiad dysgu. At ei gilydd, pa mor fodlon fyddech chi'n dweud eich bod chi ar ddiwedd eich profiad?**

DARLLENWCH Y RHAIN YN UCHEL A RHOWCH UN COD YN UNIG

- Hynod o fodlon – 1
- Bodlon iawn – 2
- Eithaf bodlon – 3
- Heb fod yn anfodlon na'n anfodlon – 4
- Eithaf anfodlon – 5
- Anfodlon iawn – 6
- Hynod o anfodlon – 7
- Ddim yn gwybod – Y

OS BYDD Y RADD FODLONRWYDD WEDI NEWID: Dywedoch chi eich bod chi'n (Y RADD FODLONRWYDD O C3) ar ddiwedd eich cwrs ond yn yr hydref roeddech chi'n (Y RADD FODLONRWYDD O'R AROLWG BLAENOROL).

**C6 Pam ydych chi'n meddwl i'ch bodlonrwydd newid dros amser?**

Holwch yn fanwl

GOFYNNWCH I BAWB

**C7 Ydych chi'n teimlo y bu'r cwrs ei hun yn berthnasol i'ch anghenion?**

- Hollol berthnasol – 1
- Rhannol berthnasol – 2
- Heb fod yn berthnasol iawn – 3
- Heb fod yn berthnasol o gwbl – 4

GOFYNNWCH I BAWB

**C8 Yn yr arolwg diwethaf, gwnaethon ni ofyn i chi beth oeddech chi'n disgwyl ei gael o'r dysgu. Am bob un, fasech chi'n dweud bod eich disgwyliadau…**

CATI I GYFLWYNO'R CODAU/ DISGWYLIADAU O'R AROLWG BLAENOROL HEPGORWCH HWN OS 'ARALL' OEDD YR ATEB

- Wedi'u bodloni'n llawn – 1
- Wedi'u bodloni'n rhannol – 2
- Heb eu bodloni o gwbl – 3
- Ddim yn gwybod – 4
- Wedi gwrthod – 5

GOFYNNWCH I BAWB

**C9 Gan edrych yn ôl yn fwy cyffredinol, ydych chi'n medwl bod eich (Enw'r cwrs) wedi helpu gydag unrhyw rai o'r dymuniadau dilynol?**

CYFWELYDD I DDARLLEN Y RHAIN A RHOI CODAU YDW, NAC YDW NEU DDIM YN GYMWYS

- Cael swydd
- Diogelwch swydd
- Cael swydd well
- Cael dyrchafiad
- Ennill cymwysterau
- Rhoi hwb i'n gyrfa
- Mynd i'r brifysgol
- Ennill mwy o arian
- Cynyddu fy hyder
- Cadw i fyny â'r dechnoleg ddiweddaraf
- Gwneud ffrindiau newydd
- Arall (rhowch fanylion)

## Adran B – Statws cyflogaeth presennol

GOFYNNWCH I BAWB

**C10 Fyddech chi'n gallu dweud wrtha i beth yw'ch sefyllfa gyflogaeth bresennol.**

PEIDIWCH Â DARLLEN Y RHAIN YN UCHEL. RHOWCH AWGRYMIADAU YN ÔL Y RHAG-GODAU ISOD. RHOWCH GOD I BOB UN SY'N GYMWYS.

- Gweithiwr mewn swydd amser llawn am dâl (30 awr yr wythnos neu fwy) – 1
- Gweithiwr mewn swydd ran-amser am dâl (llai na 30 awr yr wythnos) – 2
- Hunangyflogedig amser llawn (30 awr yr wythnos neu fwy) – 3
- Hunangyflogedig rhan-amser (llai na 30 awr yr wythnos) – 4
- Yn gwneud gwaith gwirfoddol – 5
- Ar raglen hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith – 7
- Ar gynllun hyfforddiant lleol neu gynllun y llywodraeth (gan gynnwys y Fargen Newydd) sy'n cynnwys gwaith am dâl
- Ar gynllun hyfforddiant lleol neu gynllun y llywodraeth (heb gynnwys Y Fargen Newydd) sy'n cynnwys gwaith am dâl
- Yn ddi-waith ac ar gael i weithio – 6
- Heb gofrestru'n ddi-waith ond yn chwilio am waith
- Mewn addysg amser llawn – 8
- Mewn addysg ran-amser
- Edrych ar ôl teulu / cartref – 9
- Wedi ymddeol o waith am dâl – 10
- Yn methu gweithio oherwydd salwch hirdymor, anaf neu anabledd – 11
- Gweithgarwch arall – 12
- Na/Ddim yn gwybod – 13
- Na/Gwrthod – 14

Os yn gweithio amser llawn/rhan-amser neu'n hunangyflogedig/rhaglen hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith (Codau 1,2,3,4 & 7) yn C10. Eraill ewch i adran C.

GOFYNNWCH I BAWB MEWN CYFLOGAETH

**C11 Pryd ddechreuodd y swydd yma?**

- Os bydd yr ymatebydd wedi'i gyflogi mewn dwy swydd neu fwy, holwch am y swydd maen nhw'n treulio'r amser mwyaf ei wneud
- Os nad yw'n gwybod y mis, cymerwch eu hamcan gyfrif gorau
- Rhoch y mis a'r flwyddyn

GOFYNNWCH I BAWB MEWN CYFLOGAETH

**C13 Beth yw teitl eich swydd?**

Rhowch deitl y swydd (ei deipio i mewn)

GOFYNNWCH I BAWB MEWN CYFLOGAETH

**C15 Ydy'r swydd yma...**

DARLLENWCH Y RHAIN YN UCHEL A RHOWCH UN COD YN UNIG

- Yn gontract parhaol (am fwy na blwyddyn) – 1
- Yn gontract dros dro neu achlysurol gyda'r cyflogwr (llai na blwyddyn) – 2
- Yn swydd dros dro drwy asiantaeth gyflogi – 3
- Yn hunangyflogedig – 4
- Arall (rhowch fanylion) – 5
- Ddim yn gwybod – 6

OS CODAU 2 NEU 3 GOFYNNWCH

**C15B Ai cyflogaeth dros dro oedd eich dewis cyntaf chi?**

- Ie – 1
- Nage – 2
- Ddim yn gwybod
- Gwrthod

GOFYNNWCH I BAWB MEWN CYFLOGAETH

**C17 Pa mor fodlon ydych chi ar eich swydd, gan ystyried popeth?**

DARLLENWCH Y RHAIN YN UCHEL A RHOWCH UN COD YN UNIG





- Hynod fodlon – 1
- Bodlon iawn – 2
- Eithaf bodlon – 3
- Heb fod yn anfodlon nac yn anfodlon – 4
- Eithaf anfodlon – 5
- Anfodlon iawn – 6
- Hynod anfodlon – 7
- Ddim yn gwybod – 8

GOFYNNWCH I BAWB MEWN CYFLOGAETH

**C18 mae'r datganiadau sy'n dilyn yn dod o bethau mae pobl wedi'u dweud am eu swyddi. Allwch chi ddweud wrtha i ydych chi'n cytuno'n gryf, yn cytuno ychydig, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno ychydig neu'n anghytuno'n gryf â phob un.**

DARLLENWCH YN UCHEL A RHOWCH GOD I'R LEFEL GYTUNDEB.

- Rwy'n mwynhau'r heriau rwy'n eu hwynebu yn fy swydd
- Mae'r math hwn o waith yn gam ar y ffordd i ddod o hyd i rywbeth mwy addas i mi
- Math newydd o rôl i mi yw hwn
- Mae'r lefel gyfrifoldeb yn uwch nag rwyf wedi arfer â hi
- Mae'r swydd hon yn ddechrau gyrfa i mi yn y math hwn o waith
- Rwy'n fwy bodlon ymgymryd â thasgau newydd nag oeddwn i 2 flynedd yn ôl

GOFYNNWCH I BAWB MEWN CYFLOGAETH

**C18a Fyddech chi'n dweud bod unrhyw un o'r canlynol wedi digwydd mewn gwirionedd o ganlyniad i chi wneud (CWRS AB)?**

DARLLENWCH Y RHAIN YN UCHEL A RHOWCH GOD I BOB UN SY'N GYMWYS
Amlgodio

- Cael swydd newydd – 1
- Newid i fath newydd o waith – 2
- Dysgu sgiliau newydd ar gyfer fy swydd – 3
- Gallu gwneud fy swydd yn well – 4
- Aros yn fy swydd, y byddwn i o bosib wedi'i cholli heb y cwrs hwn – 5
- Ennill mwy o arian – 6
- Cael dyrchafiad – 7
- Cael mwy o fodlonrwydd allan o'm gwaith i – 8
- Sefydlu fy musnes fy hun/ busnes teuluol – 9
- Wedi gallu delio â'r problemau gwaith sy'n gysylltiedig â'm hiechyd/anabledd – 10
- Gwella fy hyder mewn o leiaf un agwedd ar y swydd – 11
- Dim un o'r uchod – 12

**C18b Ydy unrhyw rai o'r sgiliau rydych chi'n eu defnyddio yn eich swyddi presennol yn rhai wnaethoch chi ei hennill o (Enw'r cwrs AB)?**

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod

OS YDY YN 18B

**C18c Pa sgiliau ydyn nhw?**

## Adran C – hanes cyflogaeth arall ers y cwrs

OS NAD YDYN NHW MEWN CYFLOGAETH AR HYN O BRYD

**Q19 Ydych chi wedi gweithio ar unrhyw adeg ers i'r cwrs ddod i ben? (hynny yw, yn amser llawn neu'n rhan-amser). Cynhwyswch gontractau parhaol a thros dro a hunangyflogaeth.**

OS YDYN NHW MEWN CYFLOGAETH AR HYN O BRYD

**Gan anwybyddu'r swydd rydych chi newydd sôn wrthyn ni amdani hi, ydych chi wedi cael unrhyw swyddi eraill ers diwedd y cwrs (yn amser llawn neu'n rhan-amser)? Cynhwyswch gontractau parhaol a thros dro a hunangyflogaeth.**

- Ydw – 1 ewch i C20
- Nac ydw – 2 ewch i adran D

DIGWYDDIAD GWAITH NESAF
OS NAD YDYN NHW MEWN CYFLOGAETH AR HYN O BRYD

**C20 Meddyliwch am eich swydd ddiweddaraf?**

OS YDYN NHW MEWN CYFLOGAETH AR HYN O BRYD

**C20 Gan anwybyddu'r swydd rydych chi newydd sôn wrthyn ni amdani. Meddyliwch am eich swydd cyn hynny – yr un yn union cyn hynny (Teitl y swydd o C13)**

- Pryd ddechreuodd y swydd yma?
  RHOWCH Y MIS A'R FLWYDDYN

- Pryd ddaeth y swydd yma i ben?
  RHOWCH Y MIS A'R FLWYDDYN

**C20X Ga i gadarnhau, ydych (oeddech) chi'n gweithio fel gweithiwr cyflogedig neu oeddech chi'n hunangyflogedig?**

- Gweithiwr cyflogedig – 1
- Hunangyflogedig – 2
- Ddim yn gwybod – 3

DIGWYDDIAD GWAITH NESAF

**C21 Beth oedd y prif reswm pam daeth y swydd yma i ben?**

RHOWCH AWGRYMIADAU YN ÔL Y RHAG-GODAU A RHOWCH GOD I UN YN UNIG

**Cysylltiedig â'r gwaith/contract**

- Swydd/contract dros dro/tymhorol/achlysurol wedi dod i ben – 1
- Wedi ei ddiswyddo – 2
- Wedi ei wneud yn ddi-waith – 3
- Cymryd diswyddiad gwirfoddol – 5
- Ymddeol – 6
- Y cwmni wedi mynd i'r wal – 7

**Ymddiswyddo/penderfynu ymadael**

- Ymddiswyddo/penderfynu ymadael – swydd arall i fynd iddi – 8
- Ymddiswyddo/penderfynu ymadael – dim swydd arall i fynd iddi – 9

**Addysg**

- Wedi ymadael i barhau ag addysg – 10

**Rhesymau personol/iechyd**

- Wedi ymadael i gael babi – 11
- Wedi rhoi'r gorau i'r gwaith am resymau teuluol neu bersonol – 12
- Wedi rhoi'r gorau i'r gwaith am resymau iechyd neu anabledd – 13
- Arall (rhowch fanylion) – 14
- Gwrthod – 15

DIGWYDDIAD GWAITH NESAF

**C23 Beth oedd teitl eich swydd?**

- Rhowch deitl y yswydd (teipiwch ef i mewn)

DIGWYDDIAD GWAITH NESAF

**C25 Gan anwybyddu'r swyddi rydych newydd sôn wrthyn ni amdanyn nhw. Meddyliwch am eich swydd ddiweddaraf nesaf?**

- Pryd ddechreuodd y swydd yma?
  RHOWCH Y MIS A'R FLWYDDYN

- Pryd ddaeth y swydd yma i ben?
  RHOWCH Y MIS A'R FLWYDDYN

**C20X Ga i gadarnhau, ydych (oeddech) chi'n gweithio fel gweithiwr cyflogedig neu oeddech chi'n hunangyflogedig?**

- Gweithiwr cyflogedig – 1
- Hunangyflogedig – 2
- Ddim yn gwybod – 3

DIGWYDDIAD GWAITH NESAF

**C26 Beth oedd y prif reswm y daeth y swydd yma i ben?**

RHOWCH AWGRYMIADAU YN ÔL Y RHAG-GODAU A RHOWCH GOD I UN YN UNIG

**Cysylltiedig â'r gwaith/contract**

- Swydd/contract dros dro/tymhorol/achlysurol wedi dod i ben – 1
- Wedi ei ddiswyddo – 2
- Wedi ei wneud yn ddi-waith – 3





- Cymryd diswyddiad gwirfoddol – 5
- Ymddeol – 6
- Y cwmni wedi mynd i'r wal – 7

**Ymddiswyddo/penderfynu ymadael**
- Ymddiswyddo/penderfynu ymadael – swydd arall i fynd iddi – 8
- Ymddiswyddo/penderfynu ymadael – dim swydd arall i fynd iddi – 9

**Addysg**
- Wedi ymadael i barhau ag addysg – 10

**Rhesymau personol/iechyd**
- Wedi ymadael i gael babi – 11
- Wedi rhoi'r gorau i'r gwaith am resymau teuluol neu bersonol – 12
- Wedi rhoi'r gorau i'r gwaith am resymau iechyd neu anabledd – 13
- Arall (rhowch fanylion) – 14
- Gwrthod – 15

DIGWYDDIAD GWAITH NESAF

**C28 Beth yw teitl eich swydd?**

- Rhowch deitl y yswydd (teipiwch ef i mewn)

CATI: AILADRODDWCH Y DDOLEN NES I'R YMATEBYDD ATEB NAD OES MWY O DDIGWYDDIADAU GWAITH

## Adran D – hanes dysgu ar ôl y cwrs

Rwy eisiau siarad â chi nawr am unrhyw ddysgu rydych chi wedi'i wneud ers i chi gwblhau'ch cwrs (Enw'r Cwrs AB). Wrth ddysgu rydym yn golygu cyrsiau sy'n cael eu haddysgu, astudio, hyfforddiant neu wersi eraill rydych chi o bosibl wedi'u gwneud. Cynhwyswch hyfforddiant parhaus am waith sy'n digwydd i ffwrdd o'r gwaith, er enghraifft, prentisiaethau.

**C31 Ydych chi wedi dechrau unrhyw addysg neu hyfforddiant ers i chi gwblhau/adael eich (Enw'r cwrs AB)?**
**OS OES ANGEN: nid yw hyn yn cynnwys hyfforddi fel rhan o swydd**

- Ydw – 1 ewch i C32
- Nac ydw – 2 ewch i C43

GOFYNNWCH A YDYNT YN DYSGU AR HYN O BRYD (YDW YN C31)

**C32 Meddyliwch am eich profiad dysgu diweddaraf neu bresennol. Ydych chi'n dal i ymgymryd â'r dysgu yma.**

RHOWCH GOD I UN YN UNIG

- Ydw – 1
- Nac ydw – 2

CATI: OS YDW, DEFNYDDIWCH Y GEIRIAD AM YR ADRAN NESAF YN BRIODOL

OS YN DYSGU AR HYN O BRYD (YDW YN C32)

**C33 Pa gymhwyster, os oes un, ydych chi'n ymgymryd ag ef?**

RHOWCH GOD I BOB UN SY'N GYMWYS

OS NAD YW'N DYSGU AR HYN O BRYD (NAC YDW YN C32)

**C33 Pa gymhwyster, os oes un, ydych chi wedi ymgymryd ag ef?**

RHOWCH GOD I BOB UN SY'N GYMWYS

DEFNYDDIWCH GOD DIM CYMHWYSTER OS YW'N BRIODOL

- Cymhwyster lefel radd gan gynnwys graddau sylfaen, aelodaeth i raddedigion o sefydliad proffesiynol, Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig, neu'n uwch – 1
- Diploma mewn addysg uwch – 2
- HNC/HND – 3
- ONC/OND EUROSTAT – 4
- BTEC/ BEC/TEC/EdExcel – 5
- Cymhwyster dysgu (heb gynnwys Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig) – 6
- Cymhwyster nyrsio neu gymhwyster meddygol arall sydd heb ei enwi eto – 7
- Cymhwyster addysg uwch arall islaw lefel gradd – 8
- Lefel A/ Lefel A Alwedigaethol neu gymhwyster cyfatebol – 9
- Y Fagloriaeth Gymreig – 10
- Y Fagloriaeth Ryngwladol – 11
- NVQ/ – 12

- GNVQ/ – 13
- Lefel AS/ Lefel AS Alwedigaethol neu gymhwyster cyfatebol – 14
- Mynediad i Addysg Uwch – 15
- TGAU/ TGAU Alwedigaethol – 16
- City & Guilds – 17
- Sgiliau Allweddol – 18
- Sgiliau Sylfaenol – 19
- Cymhwyster/Tystysgrif Lefel Mynediad – 20
- Unrhyw gymwysterau proffesiynol/galwedigaethol/tramor eraill – 21
- DIM CYMHWYSTER – 22
- Ddim yn gwybod
- Arall

CATI: OS BYDD YR YMATEBYDD YN DWEUD DIM CYMHWYSTER MYNNWCH Y TESTUN YN Y CWESTIYNAU NESAF I DDWEUD 'Y CWRS HWN' I ERAILL MYNNWCH ENW'R CYMHWYSTER

Mae pob un sydd wedi'i ucheloleuo mewn GLAS yn mynd ymlaen i'r cwestiwn nesaf, fel arall EWCH I C35

OS CODAU 5, 10, 11, 12, 13, 16, 17, 19, 21 AM BOB YMATEB OS YN DYSGU AR HYN O BRYD (YDW YN C32)

**C34 Ar ba lefel ydych chi'n astudio?**

RHOWCH GOD I UN YN UNIG
OS NAD YW'N DYSGU AR HYN O BRYD (NAC YDW YN C32)

**C34 Ar ba lefel oeddech chi'n astudio?**

RHOWCH GOD I UN YN UNIG

- Lefel 1 – 1
- Lefel 2 – 2
- Lefel 3 – 3
- Lefel 4 – 4
- Lefel 5 – 5
- Sylfaen – 6
- Canolradd – 7
- Uwch – 8
- Arall (rhowch fanylion) – 9

GOFYNNWCH I BAWB

**C35 Pa bynciau ydych/oeddech chi'n eu hastudio?**

PEIDIWCH Â'U DARLLEN YN UCHEL.
RHOWCH GOD I BOB UN SY'N GYMWYS.

- Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid – 1
- Y celfyddydau a'r cyfryngau – 2
- Sgiliau sylfaenol/sylfaen – 3
- Busnes, gweinyddu, a'r gyfraith – 4
- Adeiladu – 5
- Addysg a galwedigaethau hyfforddi – 6
- Peiriannu a gweithgynhyrchu – 7
- Iechyd, cymdeithasol a gofal plant – 8
- Lletygarwch ac arlwyo – 9
- Dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol – 10
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCH) – 11
- Ieithoedd – saesneg – 12
- Ieithoedd – arall – 13
- Ieithoedd – cymraeg – 14
- Hamdden, teithio a thwristiaeth (gan gynnwys chwaraeon) – 15
- Llythrennedd – 16
- Rheoli – 17
- Rhifedd – 18
- Adwerthu/dosbarthu/gwasanaethau cwsmeriaid (gan gynnwys trin gwallt) – 19
- Gwyddoniaeth a mathemateg – 20
- Trafnidiaeth – 21
- Sgiliau allweddol – 22
- Arall (rhowch fanylion) – 23

GOFYNNWCH C35B os ydynt yn dysgu ar hyn o bryd (ydw yn C32)

**C35B Pryd ddechreuodd y cwrs hwn?**

- Rhowch y mis a'r flwyddyn

GOFYNNWCH C35C os nad yw'n dysgu ar hyn o bryd (nac ydw yn C32)

**C35C When did this course end?**

- Rhowch y mis a'r flwyddyn





GOFYNNWCH I BAWB

**C36 Allwch chi ddweud wrtha i'r rhesymau y dewisoch chi wneud (y cwrs yn C33 neu 'y cwrs hwn' os nad ydynt yn astudio ar gyfer cymhwyster)**

PEIDIWCH Â'U DARLLEN YN UCHEL. RHOWCH AWGRYMIADAU YN ÔL RHAG-GODAU. RHOWCH GOD I BOB UN SY'N GYMWYS.

- Diddordeb yn y pwnc – 1
- I ddysgu sgiliau ar gyfer fy swydd bresennol/flaenorol – 2
- I ddysgu sgiliau ar gyfer swydd y bydda i (o bosibl) am ei gwneud yn y dyfodol – 3
- I ennill cymhwyster – 4
- I ddatblygu sgiliau darllen, ysgrifennu a/neu fathemateg – 5
- I ddatblygu sgiliau T.G. – 6
- I wella hunanhyder – 7
- I gadw fy meddwl / fy nghorff yn weithgar – 8
- I wneud ffrindiau newydd / cwrdd â phobl newydd – 9
- I gydategu dysgu arall – 10
- Fel cam tuag at addysg, hyfforddiant neu ddysgu pellach – 11
- I helpu gyda fy mhroblemau iechyd neu anabledd – 12
- Arall (rhowch fanylion) – 13
- Ddim yn gwybod /methu cofio – 14

GOFYNNWCH I BAWB

**C37 Ydy/oedd y (cwrs yn C33 neu'r 'cwrs hwn' os nad yw'n astudio ar gyfer cymhwyster) yn un amser llawn neu ran-amser?**

(gwiriad rhesymeg CATI – yn methu bod mewn cyflogaeth amser llawn a dysgu amser llawn)

- Amser llawn – 1
- Rhan-amser (mwy na 3 awr yr wythnos) – 2
- Rhan-amser (llai na 3 awr yr wythnos) – 3

YMATEBWYR NAD YDYN NHW'N DYSGU AR HYN O BRYD (NAC YDW YN C32) EWCH I C40) YN DYSGU AR HYN O BRYD (YDW YN C32)

**C38 Pa mor debygol yw hi y byddwch chi'n cwblhau'r cwrs yma?**

Cyfwelydd: (os oes angen) wrth 'gwblhau' rydym yn cyfeirio at fynychu'r rhan fwyaf o'r cwrs neu'r cwrs cyfan ac aros ar y cwrs nes iddo ddod i ben

- Yn debygol iawn – Ewch i C42
- Yn eithaf tebygol – Ewch i C42
- Ddim yn debygol iawn – Ewch i C39
- Ddim yn debygol o gwbl – Ewch i C39
- Ddim yn gwybod – Ewch i C42

OS YW'N GADAEL YN GYNNAR (CODAU 3 NEU 4 YN C38)

**C39 Pam ydych chi'n bwriadu gadael y cwrs cyn iddo ddod i ben?**

Teipiwch i mewn, holwch yn drwyadl

- Ddim yn gwybod
- Gwrthod

OS NAD YDYNT YN DYSGU AR HYN O BRYD (NAC YDW YN C32)

**C40 Gwnaethoch chi gwblhau (cwrs yn C33 neu 'y cwrs hwn' os nad ydynt yn astudio ar gyfer cymhwyster) neu a wnaethoch chi adael cyn iddo ddod i ben?**

Cyfwelydd: wrth 'gwblhau' rydym yn cyfeirio at fynychu'r rhan fwyaf o'r cwrs neu'r cwrs cyfan ac aros ar y cwrs nes iddo ddod i ben

- Cwblhau'r cwrs – 1Ewch i 42
- Gadael y cwrs cyn iddo ddod i ben – 2 Ewch i 41

OS GADAWODD YN GYNNAR YN C40

**C41 Allwch chi ddweud wrtha i pam gadawoch chi'r cwrs cyn iddo ddod i ben?**

Teipiwch i mewn, holwch yn drwyadl

- Ddim yn gwybod
- Gwrthod

GOFYNNWCH I BAWB

**C42 Ar wahân i'r dysgu rydych chi newydd sôn wrthyn ni amdano, ydych chi wedi cael unrhyw brofiadau eraill o ddysgu ers i'r cwrs ddod i ben? Wrth ddysgu rydym yn sôn am gyrsiau sy'n cael eu haddysgu, astudio, hyfforddiant neu wersi eraill rydych chi o bosibl wedi'u gwneud. Cynhwyswch hyfforddiant parhaus ar gyfer y gwaith sy'n digwydd i ffwrdd o'r gwaith, er enghraifft, prentisiaethau.**

- Ydw – 1 ewch i C32
- Nac ydw – 2 ewch i Adran D

CATI: AILADRODDWCH Y DDOLEN NES I'R YMATEBYDD ATEB NAD OES MWY O DDIGWYDDIADAU DYSGU

## Adran D: Cwestiynau cyffredinol

GOFYNNWCH I BAWB

**C43 Pa mor bwysig ydy'r canlynol wrth eich ysgogi i ddysgu/ astudio?**

Dwedwch a fu pob elfen yn bwysig iawn, yn eithaf pwysig, ddim yn bwysig iawn neu ddim yn bwysig o gwbl neu ddim yn gymwys.

- Mynediad i dechnoleg
- Ansawdd technoleg
- Costau'r cwrs fel ffioedd y cwrs, deunyddiau a theithio
- Gallu i gyfuno dysgu â'r gwaith
- Gallu i gyfuno dysgu â bywyd gartref
- Cefnogaeth deuluol
- Cefnogaeth athro/hyfforddwr
- Dymuniad i wella fy hunan
- Faint o amser gallaf i ei ymrwymo'n bersonol i ddysgu
- Cyfleoedd cyflogaeth/gyrfa sy'n gysylltiedig â'r dysgu
- Datblygiad personol
- Ennill cymhwyster
- Pwysig iawn – 1
- Eithaf pwysig – 2
- Ddim yn bwysig iawn – 3
- Ddim yn bwysig o gwbl – 4
- Ddim yn gwybod

AM BOB COD 1 A ENWIR YN C44 – ERAILL
Ewch i C46

**C44 Dwedoch chi fod (COD YN C43) yn bwysig iawn wrth eich ysgogi i ddysgu. Pam hynny?**

Holwch yn drwyadl

GOFYNNWCH I BAWB

**C45 Pa mor debygol ydych chi o ymgymryd â dysgu pellach yn ystod y tair blynedd nesaf?**

- Tebygol iawn – 1
- Eithaf tebygol – 2
- Ddim yn debygol iawn – 3
- Ddim yn debygol o gwbl – 4
- Ddim yn gwybod – X

**C46 Pe baech chi yn ymgymryd ag unrhyw ddysgu pellach beth fyddech chi'n ei wneud yn fwy na thebyg?**

Teipiwch i mewn y cymhwyster a'r pwnc
Teipiwch i mewn hyd at un ymateb

- Dim byd
- Ddim yn gwybod
- Gwrthod

GOFYNNWCH I BAWB

**Bydd y Cyngor Cenedlaethol ELWa yn cynnal ymchwil bellach i addysg ôl-16 yn ystod y flwyddyn. Byddai diddordeb gennych chi mewn eu helpu eto?**
**Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni drosglwyddo'ch enw a'ch manylion cyswllt i'r Cyngor Cenedlaethol ELWa ond ni fyddwn yn atodi unrhyw ddata rydych chi wedi'i roi i ni yn yr arolwg yma.**

- Byddai – 1
- Na fyddai – 2
- Ddim yn gwybod – Y

Ar ran y Cyngor Cenedlaethol ELWa ac NOPWorld hoffen ni ddiolch i chi am eich amser a'ch cymorth.

# ATODIAD 3





## Adroddiad Sampl

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y sampl a gyflenwyd | 1470 |
| Heb eu ceisio | 0 |
| Cwblhau | 541 |
| Galw'n ôl cadarn | 187 |
| Galw'n ôl meddal | 107 |
| Yn brysur/Dim ateb | 77 |
| Arolwg Cymraeg | 5 |
| Methiannau Sgrinio | 8 |
| Ddim ar gael yn y gwaith maes | 3 |
| Dim Ymatebydd Cymwys | 48 |
| Gwrthod | 69 |
| Wedi symud | 3 |
| Rhif Busnes/Preswyl | 3 |
| Rhoi'r Gorau | 8 |
| Eraill /Methu Parhau | 27 |
| Amserau a geisiwyd | 30 |